POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD

**Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

Dydd Llun, 15 Mehefin 2015 at 2.00 pm
Bodlondeb, Conwy

# RHAGLEN

1. **Penodi Cadeirydd**

2. **Penodi Is-Gadeirydd**

3. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

4. **Datgan cysylltiad: Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol**

   Caiff yr Aelodau eu hatgoffa bod yn rhaid iddynt ddatgan **bodolaeth** a **natur** eu cysylltiadau personol.

5. **Materion Brys**

   Rhybudd o faterion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys.

6. **Cofnodion** (Tudalennau 3 - 12)

   Cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir

7. **Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Prif Gwnstabl**

8. **Ystyried adroddiadau gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru:**

   a) **Cyflwyniad ar sut mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn gwneud penderfyniadau comisiynu**

   b) **Diweddariad Cyfnodol gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd** (Tudalennau 13 - 23)

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

c) **<u>Adroddiad Blynyddol gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd</u>** (Tudalennau 24 - 38)

9. **<u>Ystyried adroddiadau gan yr Awdurdod Cynnal</u>**

a) **<u>Treuliau Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru</u>** (Tudalennau 39 - 41)

b) **<u>Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru</u>** (Tudalennau 42 - 44)

10. **<u>Dyddiad y cyfarfod nesaf:</u>**

Dydd Llun, 21 Medi 2015 @ 2.00 pm

Aelodau'r Panel

| | |
|---|---|
| Cyng Amanda Bragg | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Glenys Diskin | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Bob Dutton OBE | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Philip C. Evans Y.H. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng David Griffiths | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Julie Fallon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng William T. Hughes | Cyngor Sir Ynys Mon |
| Cyng Dilwyn Morgan | Cyngor Gwynedd |
| Cyng Gethin Williams | Cyngor Gwynedd |
| Sedd Wag | Cyngor Sir Ddinbych |
| Patricia Astbury | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| Timothy Rhodes | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |

Sylwer: mae'n bosibl y bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw neu'n ddiweddarach ar wefan Panel yr Heddlu a Throsedd - ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfarfod cyfan neu ran ohono'n cael ei ffilmio. Gallai'r lluniau a'r recordiad sain gael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi.

Yn gyffredinol, nid yw'r mannau eistedd cyhoeddus yn cael eu ffilmio. Fodd bynnag, drwy fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r mannau eistedd cyhoeddus, rydych yn cydsynio i gael eich ffilmio a'r posibilrwydd y bydd y lluniau a'r recordiadau sain hynny'n cael eu defnyddio at ddibenion gweddarlledu a / neu hyfforddiant.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â hyn, cysylltwch â chynrychiolydd y Cyfarwyddwr Strategol – Democratiaeth a'r Amgylchedd yn y cyfarfod.

## PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Dydd Llun, 9 Mawrth 2015, am 2.00 pm
Bodlondeb, Conwy

| | |
|---|---|
| YN BRESENNOL: | Y Cynghorydd Philip C. Evans Y.H. (Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod yn unig)<br>Y Cynghorwyr: Amanda Bragg, Bob Dutton, Julie Fallon, David Griffiths a Dilwyn Morgan<br><br>Aelod Cyfetholedig Annibynnol: Pat Astbury |
| Swyddogion: | Ken Finch (Cyfarwyddwr Strategol (Democrataidd a'r Amgylchedd)), Dawn Hughes (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) a Richard Jarvis (Cyfreithiwr) |
| Hefyd yn bresennol: | Stephen Hughes (Prif Weithredwr Dros Dro, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Kate Jackson (Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Winston Roddick CB QC (Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru) a Julian Sandham (Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd) |
| Yn absennol: | Y Cynghorwyr: William T Hughes a Bill Tasker |

158. **PENODI CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD YN UNIG.**

Oherwydd absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd, cynigwyd ac eiliwyd y cynnig bod y Cynghorydd Philip C. Evans Y.H. yn cael ei benodi'n Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod yn unig.

**PENDERFYNWYD-**
**Penodi'r Cynghorydd Philip C. Evans Y.H. yn Gadeirydd ar gyfer y Cyfarfod yn unig.**

159. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Glenys Diskin, Tim Rhodes (Aelod Cyfetholedig Annibynnol) a'r Cynghorydd Gethin Williams.

Croesawyd y Cynghorydd David Griffiths, yr Aelod newydd a benodwyd o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, i'w gyfarfod cyntaf.

160. **DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL**

Datganodd y Cynghorydd Julie Fallon gysylltiad personol gan fod ei gŵr yn Swyddog yr Heddlu gyda Heddlu Gogledd Cymru.

161. **MATERION BRYS**

Dim.

162. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd 19 Ionawr 2015 i'w cymeradwyo.

Mewn perthynas â Chofnod 147 - Datgan Cysylltiad, hysbysodd y Prif Weithredwr Dros Dro'r Panel y dylai'r datganiad 'rôl gyfredol' yn y paragraff cyntaf a'r trydydd paragraff nodi 'rôl flaenorol'.

Cofnod 151 – Cynllun Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru – Ail ddiwygiad: Nodwyd bod cynllun Heddlu a Throsedd gwreiddiol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi'i gyhoeddi ym mis Ebrill 2013, nid Ionawr 2013 ac roedd yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Nodwyd hefyd fod y Comisiynydd wedi ymgynghori â'r Bwrdd Cymunedau Diogelach Rhanbarthol a byddai Heddlu Gogledd Cymru yn buddsoddi adnoddau ychwanegol i ymdrin â cham-fanteisio'n rhywiol ar blant a throseddau eraill nad ydynt yn cael eu hadrodd dros y 12 mis nesaf.

Cofnod 149 – Hysbysodd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd y Panel, yn dilyn pryderon a amlygwyd gan y Cynghorydd Bob Dutton yn y cyfarfod diwethaf, roedd y wefan wedi'i adolygu ac roedd gwefan plismona cymdogol wedi'i ddiweddaru i gynnwys rhifau ffôn symudol yn lle rhifau 0300.

Hysbyswyd y Panel er bod yr eicon plismona cymdogol yn hawdd ei ganfod, roedd y cyfleuster chwilio ar y tudalennau hyn yn cynhyrchu gwybodaeth gamarweiniol. Roedd y mater wedi'i gyfeirio at y Tîm Gwe i'w ymchwilio ymhellach.

Diolchodd y Cynghorydd Bob Dutton am y camau a gymerwyd, fodd bynnag awgrymwyd y dylai'r cyhoedd / Cynghorau Cymuned wneud profion pellach i sicrhau fod y wefan yn hygyrch.

Mewn ymateb, adroddodd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd bod hyn wedi'i gyflawni'n rhannol gyda'r Arolygwyr Rhanbarthol ac roedd cynrychiolwyr o Swyddfa'r Comisiynydd hefyd wedi adolygu'r wefan; fodd bynnag byddai'r awgrymiadau hyn yn cael eu rhannu gyda'r Prif Arolygydd.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2015 fel cofnod cywir, yn amodol ar y diwygiadau uchod.**

**(b) Bod yr awgrymiadau o ran profi'r wefan, fel y nodwyd uchod, yn cael eu rhannu gyda'r Prif Arolygydd.**

163. **DIWEDDARIAD CYFNODOL GAN GOMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD**

Cyflwynodd Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd (Y Comisiynydd) ei ddiweddariad cyfnodol i Banel yr Heddlu a Throsedd ar gyfer cyfnod o ganol mis Tachwedd 2014 i'r 1 Chwefror 2015.

Roedd yr adroddiad yn ystyried swyddogaeth ehangach y Panel dan adran 28(6) o Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 i adolygu neu graffu penderfyniadau a wnaed, neu gamau eraill a gymerir gan y Comisiynydd ac i lunio adroddiadau ac argymhellion i'r Comisiynydd mewn perthynas â hynny.

Amlygodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd meysydd canlynol yr adroddiad:

<u>Arolwg Trosedd Cymru a Lloegr (hyd at ddiwedd Rhagfyr 2014)</u>

- Dealltwriaeth y Gymuned - roedd canlyniadau'r arolwg yn dangos bod nifer y rhai sy'n meddwl bod gan Heddlu Gogledd Cymru ddealltwriaeth o faterion cymunedol wedi cynyddu. Roedd Heddlu Gogledd Cymru wedi codi 8 lle i fod yn ail yn genedlaethol (allan o 43).
- Parch - roedd nifer y bobl sydd o'r farn bod swyddogion Heddlu Gogledd Cymru yn trin pobl â pharch wedi gweld Heddlu Gogledd Cymru yn codi pum safle i fod yn 6ed yn genedlaethol.
- Yr Heddlu yn Delio â Phryderon – Roedd Heddlu Gogledd Cymru yn 10fed yn genedlaethol, cynnydd o 6 lle yn y chwarter diwethaf.
- Heddlu'n Gwneud Gwaith Da / Rhagorol – roedd Heddlu Gogledd Cymru wedi codi saith safle yn genedlaethol i fod yn 21ain, sy'n rhoi Heddlu Gogledd Cymru yn unol â'r cyfartaledd cenedlaethol.
- Roedd hyder yn Heddlu Gogledd Cymru wedi cynyddu 8 lle i fod yn 25ain yn genedlaethol.
- Triniaeth Deg – roedd yr heddlu wedi codi un ar ddeg o safleoedd i fod yn 12fed yn genedlaethol.

Datganodd y Comisiynydd, er bod yr Arolwg Trosedd yn dangos sefyllfa well, nid oedd yn berffaith ac roedd yn amlwg fod gan yr Heddlu waith i'w wneud mewn rhai meysydd, er mwyn sicrhau ei fod cystal ag y gallai fod. Nid oedd gan y Comisiynydd unrhyw amheuaeth nad oedd y gwelliannau hyn wedi digwydd ar hap, ond yn hytrach o ganlyniad i ymdrech fwriadol mewn nifer o feysydd, gan gynnwys cynyddu'r sylw a roddir i ansawdd, trwy'r ymgyrch Mae'n Bwysig.

Adroddodd y Comisiynydd hefyd bod Heddlu Gogledd Cymru wedi comisiynu arolwg trwy gwmni allanol, oedd yn arddangos cynnydd yn hyder y cyhoedd yn yr Heddlu.

Amlygwyd canlyniadau'r arolwg hwn fel a ganlyn:

- Mae'r heddlu yn delio â'r pethau sy'n bwysig i bobl yn y gymuned hon, wedi cynyddu o 72.6% i 74.3%

- Teimlo'n ddiogel yn y cartref, wedi cynyddu o 96.3% i 97.0%
- Teimlo’n ddiogel ar strydoedd Gogledd Cymru yn ystod y nos wedi cynyddu o 71.1% i 78.4%.
- Teimladau o ddiogelwch yng Ngogledd Cymru yn gyffredinol wedi cynyddu o 87.5% i 90.9%

Cydnabuwyd bod y canlyniadau yn dystiolaeth dda o ba mor dda oedd perfformiad Heddlu Gogledd Cymru.

Darparodd y Comisiynydd yr wybodaeth ategol ganlynol i’r Panel hefyd:

<u>Ymgyrch Genedlaethol – We Stand Together</u>

Yn dilyn ymosodiadau terfysgol diweddar ym Mharis a Denmarc byddai’r Comisiynydd yn rhoi cefnogaeth ar gyfer yr ymgyrch genedlaethol – We Stand Together, sy’n cael ei harwain gan Heddlu Manceinion. Roedd yr ymosodiadau terfysgol diweddar wedi arwain at bryder, ofn a thensiwn yn y gymuned ac o amgylch y byd, gan gynnwys Gogledd Cymru. Byddai’r ymgyrch hon yn ceisio lliniaru’r tensiynau ac uno cymunedau i gydsefyll yn erbyn casineb, anoddefgarwch a therfysgaeth.

Anogwyd aelodau Panel yr Heddlu a Throsedd i dynnu sylw eu Hawdurdodau Lleol a’u cymunedau at yr ymgyrch, a phrif egwyddorion yr ymgyrch oedd:

- Cymunedau i sefyll gyda’i gilydd i ddathlu ein gwahaniaethau.
- Sefyll gyda’n gilydd yn erbyn casineb ac anoddefgarwch.
- Sefyll gyda’n gilydd i ffurfio Gogledd Cymru sy’n ddiogelach ac yn gryfach.

<u>Cyllid ar gyfer Ymgynghorwyr Annibynnol Trais Rhywiol ac Ymgynghorwyr Annibynnol Trais Domestig</u>

Adroddodd y Comisiynydd bod y Swyddfa Gartref wedi cyflwyno ffynhonnell gyllid newydd yn 2014/15 â gwerth o £12m. Roedd Heddlu Gogledd Cymru wedi llwyddo i dderbyn £250mil, a oedd yn caniatáu cyllid ar gyfer 2 Ymgynghorydd Annibynnol Trais Rhywiol a 5.5 Ymgynghorydd Annibynnol Trais Domestig. Er y croesawir y cyllid, roedd ar gael tan 31 Mawrth 2015 yn unig. Roedd y rolau yn darparu gwasanaeth rhagorol ac yn cysylltu’n agos â’r blaenoriaethau yng Nghynllun Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Cyhoeddodd y Comisiynydd ei fod wedi llwyddo i ganfod cyllid yn ei gyllideb i gadw’r swyddi hyn am 12 mis arall; byddai hyn yn sicrhau bod y lefel uchel o gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer dioddefwyr trais rhywiol a thrais domestig yn parhau.

Roedd cynaladwyedd yr arian yn fater o bwysigrwydd allweddol ac adroddodd y Comisiynydd y byddai’n codi’r mater gyda’r Gweinidog Plismona. Byddai o fudd i holl Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd pe baent yn gwybod lefel cyllid ar gyfer eu tymor yn y swydd, yn hytrach na bob blwyddyn.

Cyfleuster Hofrennydd yn Rhuddlan

Hysbysodd y Comisiynydd y Panel ei fod yn archwilio i weld os oes modd iddo herio’r penderfyniad a wnaed gan Wasanaeth Cenedlaethol Heddlu'r Awyr i gau'r cyfleuster hofrennydd yn Rhuddlan.

Roedd y Comisiynydd yn anfodlon gyda’r diffyg ymgynghori a fu ar y cynlluniau i gau’r cyfleuster, a oedd yn cau ar 15/09/15 nodwyd y byddai’r cyfleuster ym Mhenarlâg yn aros ar agor.

Byddai’r Comisiynydd yn hysbysu’r Panel o unrhyw ddatblygiadau mewn perthynas â’r mater hwn.

Ymgyrch Ffederasiwn yr Heddlu – Cuts have Consequences

Oherwydd toriadau sylweddol i gyllideb plismona yn y pedair blynedd diwethaf a thoriadau pellach a ragwelir yn y blynyddoedd sydd i ddod, roedd Ffederasiwn yr Heddlu wedi lansio ymgyrch – Cuts have Consequences.

Dywedodd y Comisiynydd fod gan Ffederasiwn yr Heddlu le i boeni a’u bod yn mynd ati i wneud gwaith da i ddiogelu’r aelodau, gan fod morâl swyddogion Heddlu Gogledd Cymru yn uchel.

Fodd bynnag, siaradodd y Comisiynydd ar ran y cyhoedd ac er bod y Comisiynydd yn cydnabod y gallai toriadau gael effaith, nid oedd yn golygu gostyngiad yn effeithiolrwydd y gwasanaeth, gallai hyd yn oed wella effeithiolrwydd yr heddlu. Roedd toriadau cyllidebol yn gorfodi i’r rhan fwyaf o dimau heddlu flaenoriaethu a chanolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf.

Datganodd y Comisiynydd nad oedd rhai o’r newidiadau a grybwyllir yn yr ymgyrch o ganlyniad i doriadau yng Ngogledd Cymru, ond oherwydd gwaith i foderneiddio ystâd yr heddlu, yn enwedig mewn perthynas â Wrecsam, Llandudno a Llangefni.

Yn ogystal â hyn, roedd nifer yr ymddeoliadau ar sail feddygol wedi gostwng yng Ngogledd Cymru ac yn ystod cyfnod o doriadau, roedd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi cyflwyno Tîm Troseddau Gwledig a oedd yn cynhyrchu canlyniadau sylweddol.

Hysbyswyd y Panel hefyd fod Heddlu Gogledd Cymru yn fodel ar gyfer sicrhau’r isafswm o doriadau o ran staff. Roedd cyhoeddiad diweddar gan y Ffederasiwn yn dangos gostyngiad yn y gweithlu yn ôl ardal Heddlu yn ystod 2010/2014.

Y gostyngiad uchaf oedd 40% o ostyngiad yn y gweithlu, tra bo gan Heddlu Gogledd Cymru'r gostyngiad isaf o 1.38% dros bedair blynedd; gallai hyn fod o ganlyniad i nifer o resymau gan gynnwys colled naturiol ac effeithlonrwydd.

Roedd yr un cyhoeddiad yn dangos gostyngiadau Swyddog dros y pedair blynedd diwethaf yn ôl ardal Heddlu. Y gostyngiad uchaf oedd Cleveland

gyda 22.25%, gyda Gogledd Cymru yn dangos gostyngiad o ddim ond 5.96%, oedd yn gyfwerth â 90 o Swyddogion mewn pedair blynedd.

Roedd y dystiolaeth yn dangos fod Heddlu Gogledd Cymru yn rheoli gostyngiadau staff yn effeithiol ac yn sicrhau bod y toriadau yn cael yr effaith lleiaf posibl.

Roedd ffynonellau annibynnol megis yr Arolwg Trosedd Cenedlaethol hefyd yn darparu tystiolaeth fod gan Ogledd Cymru Wasanaeth Heddlu effeithiol, gan fod y canlyniadau yn dangos gostyngiad o 0.7% yn yr holl droseddau yn yr ardal. Yn ogystal â hyn, roedd lladradau mewn tai yn dangos gostyngiad o 12% ac roedd gostyngiad o dros 10% mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd yr arolwg hefyd yn dangos fod hyder yn Heddlu Gogledd Cymru yn gryf a bod cyfraddau ymateb yn rhagorol.

Roedd adroddiadau diweddar yn awgrymu fod Plismona Cymunedol mewn perygl o gael ei ddiddymu yng Ngogledd Cymru; fodd bynnag roedd yr Arolwg Trosedd Cenedlaethol wedi gosod Gogledd Cymru ar ben y gynghrair yng Nghymru ac yn ail allan o 43 o luoedd Plismona Cymunedol yng Nghymru a Lloegr.

Awgrym arall gan Ffederasiwn yr Heddlu oedd bod tueddiadau troseddu yn newid ac er mwyn ymdrin â hyn roedd y Comisiynydd eisoes wedi cynnwys caethwasiaeth fodern, troseddau seiber a cham-fanteisio'n rhywiol ar blant o fewn Cynllun Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Diolchodd y Panel i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd am ei ddiweddariad a thrafodwyd y canlynol:

- Sut yr oedd y Comisiynydd yn craffu a mesur morâl y staff – Datganodd y Comisiynydd bod tystiolaeth annibynnol yn dangos perfformiad plismona da yng Ngogledd Cymru, oedd yn arwydd cryf o weithlu da ac iach. Mewn perthynas ag absenoldeb oherwydd salwch, roedd ffigyrau diweddaraf Heddlu Gogledd Cymru yn awgrymu eu bod yn is na'r ffigyrau yn ymgyrch y Ffederasiwn ac yn is na'r llynedd. Fodd bynnag, nid oedd y Comisiynydd wedi gwirio'r ffigyrau hyn a byddai'n archwilio hyn ymhellach. Yn ogystal â hyn, cwblhawyd arolwg staff mewnol yn ddiweddar a chyflwynwyd adroddiad cadarnhaol i'r Pwyllgor Moeseg.
- Effaith y byddai colli cefnogaeth o'r awyr yn ei gael ar gyllideb plismona a'r effaith ar adnoddau Heddlu Gogledd Cymru – roedd y Comisiynydd mewn trafodaethau â'r Prif Gwnstabl ynglŷn â'r safle a threfnwyd nifer o gyfarfodydd ymgynghori i ystyried canlyniadau'r penderfyniad hwn a'r effaith ar yr Heddlu a'i gyllideb.
  Roedd y Comisiynydd o'r farn y dylai'r cyfarfodydd ymgynghorydd hyn fod wedi'u cynnal cyn gwneud y penderfyniad fel y nodwyd uchod, byddai'n edrych a oes modd herio'r penderfyniad hwn. Roedd y Comisiynydd yn ansicr a fyddai cyfrifoldebau'n cael eu trosglwyddo o'r awyr i'r ddaear.

Diolchodd y Panel i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd am ei ddiweddariad cyfnodol a chroesawu ei archwiliad i'r penderfyniad i dynnu

cefnogaeth awyr o Rhuddlan; awgrymwyd y dylid cynnal trafodaethau gyda Heddlu Dyfed Powys a fyddai mewn sefyllfa debyg.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Bod Panel yr Heddlu a Throsedd yn nodi'r penderfyniadau a'r camau gweithredu a gymerwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd, a'r wybodaeth a ddarparwyd yn ei adroddiad diweddaru cyfnodol.**

**(b) Bod Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn diweddaru Panel yr Heddlu a Throsedd ynglŷn â datblygiadau i dynnu cefnogaeth awyr o Rhuddlan.**

164. **DIWEDDARIAD AR GYLLIDEB 2014/15 (AR 31 RHAGFYR 2014)**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid adroddiad i Banel yr Heddlu a Throsedd, a oedd yn ddiweddariad am sefyllfa'r gyllideb blismona ar gyfer Gogledd Cymru fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2014.

Er bod cyllideb plismona yn rhagweld tanwariant bychan ar ddiwedd mis Rhagfyr 2014, roedd yn debygol y byddai'r gyllideb gyffredinol wedi'i mantoli erbyn diwedd Mawrth 2015.

Er bod gwariant yn eithaf agos at y gyllideb, roedd nifer o orwariant a thanwariant a ragwelir, a'r rhai mwyaf sylweddol o'r rhain yn gysylltiedig â:

- Gweithwyr- er nad oedd y gwariant a ragwelwyd wedi newid, roedd cynnydd yn y gyllideb. Roedd hyn o ganlyniad i symudiad llinellau cyllideb mewn perthynas â chyd-gymorth, trosglwyddo o Gyflenwadau a Gwasanaethau i gostau Gweithwyr.
- Eiddo – adroddwyd tanwariant sylweddol yng nghyfarfod mis Rhagfyr (£0.298m); fodd bynnag roedd gwaith wedi'i gyflawni yn awr i nodi gwaith adfer, y gellir ei symud ymlaen; roedd hyn yn mynd rhagddo yn awr.
- Grantiau ar gyfer comisiynu gwasanaethau i ddioddefwyr - er y disgwylir y bydd cyllid y Gweinidog Cyfiawnder wedi'i ddefnyddio'n llawn erbyn diwedd mis Mawrth 2015, roedd grantiau sydd i'w talu yn ôl-ddyledion. Roedd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn disgwyl cadarnhad gan ddarparwyr eu bod wedi darparu'r gwasanaethau, wedi cydymffurfio ag amodau grant Gweinidog Cyfiawnder, yn cefnogi egwyddorion Cynllun yr Heddlu a Throsedd, ac nad oedd y grant yn ddyblygiad o unrhyw gyllid arall. Mewn perthynas â chomisiynu gwasanaethau i ddioddefwyr yn 2015/16, hysbyswyd y Panel bod cynlluniau ar waith i ddefnyddio'r cyllid o £770mil.
- Gwariant Cyfalaf - er bod gwariant cyfalaf yn tueddu i gyflymu tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae'n debygol y bydd rhywfaint o lithriad i raglen ystadau 2015/16.

Cyfeiriwyd at y Ganolfan Gymorth newydd i Ddioddefwyr a'r effaith a gaiff hyn ar sefydliadau'r trydydd sector oedd yn darparu gwasanaethau i ddioddefwyr a gwasanaethau adfer cyfiawnder.

Adroddodd y Comisiynydd bod cryn dipyn o ddyblygu yn narpariaeth gwasanaethau i ddioddefwyr. Nod y Ganolfan Gymorth i Ddioddefwyr oedd gwneud y gorau o fuddsoddiadau ac uno darparwyr y gwasanaethau hyn er mwyn defnyddio adnoddau yn well mewn dull cydlynol ac effeithiol. Byddai gwybodaeth bellach ynglŷn â chomisiynu gwasanaethau i ddioddefwyr yn cael eu dapraru yng nghyfarfod nesaf Panel yr Heddlu a Throsedd.

Eglurodd y Prif Swyddog Cyllid bod cyd-gymorth yn golygu rhannu adnoddau'r heddlu rhwng gwahanol ardaloedd. Fel arfer roedd hyn ar gyfer digwyddiadau mawr, oedd yn cael eu cynllunio ymhell o flaen llaw, er mwyn sicrhau eu bod yn cael ychydig neu ddim effaith ar blismona yng Ngogledd Cymru. Ar achlysuron lle nad dyma'r achos, megis adleoli swyddogion ar gyfer ymchwiliadau mawr, roedd cynllunio'n hanfodol er mwyn sicrhau bod y bylchau yn y gwasanaeth i'r isafswm lleiaf posibl. Nid oedd adleoli fel arfer yn cynnwys y defnydd o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu,

Mewn perthynas â Chronfa Swyddogion ar Brawf, eglurodd y Prif Swyddog Cyllid ei fod er mwyn recriwtio Swyddogion er mwyn sicrhau bod nifer cywir o swyddogion hyfforddedig yn y sefydliad ar unrhyw adeg. Byddai'r Prif Swyddog Cyllid yn dosbarthu ffigyrau ar gyfer y gronfa Swyddogion ar Brawf yn electronig.

Cyfeiriwyd hefyd at y Rhaglen Atal a'r effaith y gallai ei gael ar yr Heddlu yng Ngogledd Cymru. Dywedodd y Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw faterion nac anawsterau yng Ngogledd Cymru.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Nodi'r adroddiad.**

**(b) Bod y ffigyrau mewn perthynas â Chronfa Swyddogion ar Brawf yn cael ei gylchredeg i Banel yr Heddlu a Throsedd.**

165. **DIWEDDARIAD GAN DDIRPRWY GOMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD AR DDARPARIAETH TELEDU CYLCH CYFYNG YNG NGOGLEDD CYMRU (LLAFAR)**

Darparodd Ddirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd ddiweddariad i'r Panel ynglŷn â darpariaeth TCC yng Ngogledd Cymru.

Hysbyswyd y Panel bod yr heddlu wedi penderfynu comisiynu darn o waith ar werth TCC yng Ngogledd Cymru.

Roedd y Dirprwy Gomisiynydd wedi rhoi gwybodaeth sylweddol i'r Swyddogion oedd yn ymgymryd â'r adolygiad ac roedd yn bwysig ystyried yr effaith yr oedd TCC yn ei gael ar nifer y troseddau, buddion i ymdrin â throseddau mawr a difrifol, a'i allu i ddarparu ar gyfer archwiliad i fygythiad, risg a niwed. Cynhelir cyfarfodydd pellach gyda'r Heddlu yn fuan i drafod y mater ymhellach.

Y sefyllfa bresennol yng Ngogledd Cymru yw:

- Ynys Môn – 5 Cyngor Tref a Chymuned yn gweithredu fel consortiwm wedi ymrwymo i ddarparu TCC am y 10 mlynedd nesaf.
- Gwynedd – roedd y ddarpariaeth yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd.
- Conwy – roedd cyllideb TCC wedi'i ostwng ar gyfer 2015/16, fodd bynnag cydnabu Conwy bwysigrwydd TCC ac nid oedd ganddynt unrhyw gynlluniau i leihau'r ddarpariaeth yn sylweddol.
- Sir Ddinbych – cyllid yn cael ei dynnu'n ôl o 1/4/16. Roedd Grŵp Gorchwyl wedi'i sefydlu i archwilio ffynonellau cyllid eraill i barhau â darpariaeth y gwasanaeth ar ôl 1/4/16.
- Sir y Fflint – roedd hyn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, ond nid oes unrhyw gynlluniau i leihau'r ddarpariaeth ar hyn o bryd.
- Wrecsam - roedd y ddarpariaeth yn cael ei huwchraddio'n sylweddol ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD-**

**Bod Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn darparu diweddariad pellach yng nghyfarfod Panel yr Heddlu a Throsedd yn y dyfodol.**

166. **RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynodd Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Roedd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol wedi'i ddiweddaru yn dilyn y sylwadau a wnaed yn y cyfarfodydd diwethaf a byddai Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn darparu cyflwyniad yn y cyfarfod nesaf ynglŷn â sut yr oedd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn gwneud penderfyniadau comisiynu.

Trafododd y Panel y dylid gwahodd y Prif Gwnstabl i gyfarfod y Panel yn y dyfodol. Y sefyllfa oedd yn rhai Paneli Heddlu a Throsedd oedd bod y Prif Gwnstabl yn mynychu pob cyfarfod; er nad oedd y Panel yn dymuno mabwysiadu'r dull hwnnw, byddai'n rhesymol gwahodd y Prif Gwnstabl bob chwe mis neu'n flynyddol i roi diweddariad i'r Panel.

Atgoffodd Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd y Panel mai ei rôl ef oedd craffu'r Prif Gwnstabl ac y byddai angen rhoi ystyriaeth i'r hyn yr oedd y Panel yn dymuno i'r Prif Gwnstabl gyflwyno adroddiad yn ei gylch.

Estynnodd y Comisiynydd groeso i Aelodau'r Panel i ymweld â'i swyddfa unrhyw bryd a chylchredeg drafft terfynol ei Gynllun Heddlu a Throsedd.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Cymeradwyo Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer Panel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.**

**(b) Y gwahoddir y Prif Gwnstabl i gyfarfod Panel yr Heddlu a Throsedd yn y dyfodol.**

167. **RHAGLEN CYFARFODYDD ARFAETHEDIG 2015/16**

Cyflwynwyd amserlen arfaethedig i'r Panel o gyfarfodydd ar gyfer 2015/16.

**PENDERFYNWYD-**

**Bod amserlen cyfarfodydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer 2015/16 yn cael ei chymeradwyo fel a ganlyn:**

- **Dydd Llun, 15 Mehefin 2015 am 2.00pm**
- **Dydd Llun, 21 Medi 2015 am 2.00pm.**
- **Dydd Llun 9 Tachwedd 2015 am 2.00pm**
- **Dydd Llun, 14 Rhagfyr 2015 am 2.00pm**
- **Dydd Llun, 25 Ionawr 2016 am 2.00pm**
- **Dydd Llun 14 Mawrth 2016 am 2.00pm**

(Daeth y cyfarfod i ben am 3.05 pm)

## Diweddariad i'r Panel Heddlu a Throsedd
## 15 Mehefin 2015
## *Winston Roddick CB QC, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, Gogledd Cymru*

Dyma fy adroddiad i'r Panel am y cyfnod 1 Chwefror i'r 1 Mai 2015. Nid yw'r adroddiad yn trafod gofynion adrodd statudol penodol o ran y praesept, penodiadau yn fy swyddfa, diwygiadau i fy nghynllun heddlu a throsedd nac yn cynnwys fy adroddiad blynyddol. Mae'n ymwneud yn bennaf â swyddogaeth ehangach y Panel o dan adran 28 (6) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf) i adolygu neu graffu penderfyniadau a wnaed neu gamau eraill a gymerwyd gennyf fel Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (y Comisiynydd) ar gyfer gogledd Cymru, ac i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion i mi fel Comisiynydd yn hynny o beth. Hefyd, yn unol ag adran 13 (1) o'r Ddeddf, mae'n darparu'r Panel â'r wybodaeth y disgwylir i'r Comisiynydd o fewn rheswm ei chyfrannu i'r panel i gyflawni ei swyddogaethau (y ceisiadau penodol).

## Adran Un: Fy ngwaith craffu ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru

Pwrpas yr adran hon yn fy adroddiad yw dangos sut yr wyf wedi bod yn cyflawni fy mhrif swyddogaeth o graffu Heddlu Gogledd Cymru. Rwy'n gwneud hynny trwy fesur perfformiad yr heddlu o'r pedwar amcan yn fy nghynllun yn erbyn y mesurau a nodir. Y prif gyfrwng a ddefnyddir i gyflawni'r swyddogaeth honno yw'r bwrdd gweithredol strategol (BGS) -  rwy'n cadeirio'r bwrdd sydd hefyd yn cynnwys y prif gwnstabl a'i uwch swyddogion fel aelodau.


Cyn pob cyfarfod o'r bwrdd hwnnw, mae'r prif gwnstabl yn darparu ystadegau troseddu a gwybodaeth arall gan gynnwys graffiau, tablau a siartiau (o'r math a ddangosir isod) ac mae'n debyg y byddaf yn craffu perfformiad trwy gyfeirio at yr ystadegau a'r tueddiadau hyn yn ogystal â'r mesurau a grybwyllwyd yn gynharach. Yn 2014 cynhaliodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi arolwg o safonau ac arferion cofnodi trosedd ar gyfer holl heddluoedd Cymru a Lloegr. Derbyniodd Heddlu Gogledd Cymru radd cydymffurfio o 94% ac maent ymysg y pum uchaf. Mae hyn o bwysigrwydd sylfaenol. Mae hyn yn dweud wrthyf i, a phobl Gogledd Cymru, bod fy nghynllun heddlu a throsedd yn seiliedig ar ddata cywir. Mae'n cadarnhau bod fy ngwaith o graffu ar berfformiad yr heddlu yn seiliedig ar wybodaeth gywir.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar berfformiad yr Heddlu yn erbyn mesurau fy nghynllun 2014/15 hyd at 31 Mawrth 2015, sef diwedd y flwyddyn blismona. Cyhoeddwyd fy Nghynllun Heddlu a Throsedd newydd ym mis Ebrill 2015.


## Amcan 1 yr Heddlu a Throsedd: Atal Trosedd

Roedd pedwar mesurydd i fesur perfformiad yr amcan hwn. Y pedwar mesurydd oedd lefel yr holl droseddau, lefel y troseddau yn seiliedig ar y dioddefwr, lefel y troseddau a gafodd eu datrys yn ôl math a lefel yr ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodwyd. Ni ddylid edrych ar y mesuryddion fel targedau perfformiad. Eu pwrpas yw fy nghynorthwyo i gwestiynu ffigurau perfformiad a'i gwneud yn glir ynglŷn â'r prif faterion y byddaf yn eu cymryd i ystyriaeth wrth wneud yr asesiad hwnnw. Mae'r wybodaeth a gyflwynir isod yn arddangos fy ngwaith o graffu'r amcan penodol hwn yn hytrach na'ch galluogi i graffu perfformiad yr heddlu.

Mae'r siartiau isod, a gynhyrchwyd gan y prif gwnstabl, yn dangos nifer yr holl droseddau a throseddau yn seiliedig ar y dioddefwr a gofnodwyd bob 3 mis ers mis Ebrill 2010:




Ffigwr 1: Yr holl droseddau a gofnodwyd yn fisol hyd at fis Mawrth 2015 (ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru)




Ffigwr 2: Troseddau yn seiliedig ar y dioddefwr a gofnodwyd yn fisol hyd at fis Mawrth 2015 (ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru)

Mae'r ffigyrau diwedd blwyddyn (1 Ebrill 2014- 31 Mawrth 2015) a roddwyd i mi gan yr heddlu'n dangos fod yr holl droseddau wedi gostwng o 0.2% a bod troseddau yn seiliedig ar y dioddefwr wedi cynyddu o 0.4% yn 2014/15. Mae fy ngweithgareddau craffu yn dangos bod perfformiad yn

parhau i symud mewn cyfeiriad cadarnhaol, ac mae hyn yn cymharu â chynnydd o 0.7% mewn troseddau yn seiliedig ar y dioddefwr yn y flwyddyn hyd yn hyn a adroddwyd i'r Panel ym mis Mawrth 2015, a chynnydd o 1% mewn troseddau yn seiliedig ar y dioddefwr yn y flwyddyn hyd yn hyn a adroddwyd ym mis Medi 2014.

Rwyf yn hyderus bod y data hwn yn darparu darlun cadarnhaol ac yn arddangos ymrwymiad parhaus Heddlu Gogledd Cymru i fynd i'r afael â throsedd yng Ngogledd Cymru, yn enwedig o ystyried yr heriau parhaus y mae'r gwasanaeth heddlu'n eu hwynebu o'r arbedion ariannol sy'n ofynnol, cynnydd yn y galw ar gyfer materion nad ydynt yn gysylltiedig â throseddu a chynnydd yng nghyffredinolrwydd cam-drin plant yn rhywiol ar y we, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, troseddau seibr, caethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl. Yn ystod y deuddeg mis diwethaf cafwyd ergyd sylweddol i'r fasnach gyffuriau anghyfreithlon yng Ngogledd Cymru gyda chwech ar hugain o bobl oedd yn cynllwynio i gyflenwi cyffuriau rheoledig yn cael eu carcharu am gyfanswm o 127 o flynyddoedd. Dylid canmol yr heddlu am gyflawni canlyniadau mor sylweddol a hwythau'n wynebu toriadau a heriau.

Bydd aelodau'r Panel yn cofio y cefais wybod yn ddiweddar bod 33% o droseddau a gofnodwyd yn Wrecsam yn digwydd ym Mharc Caia a bod dros 20% o garcharorion a gaiff eu prosesu trwy'r ddalfa yn Wrecsam yn byw ym Mharc Caia. O ganlyniad i hyn rwyf wedi bod yn cysylltu â'r Arolygydd Ardal lleol i sicrhau bod yr ymateb plismona yn yr ardal honno yn briodol, a chefais gyfle i ymweld â Pharc Caia ym mis Ebrill i weld y problemau trosedd a materion plismona yn yr ardal yn uniongyrchol. Ers mis Ionawr 2015 mae'r heddlu wedi bod yn patrolio'r ardal 24 awr y dydd, saith niwrnod yr wythnos. Roedd y newid tuag at ymdrech plismona sy'n fwy gweladwy ym mis Ionawr 2015 yn ymateb i gynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol gan achosi i gynghorwyr a phreswylwyr ofni bod y diffyg parch sydd gan yr ieuenctid tuag at awdurdod allan o reolaeth.

Yn ystod fy ymweliad â Pharc Caia ym mis Ebrill cefais wybod bod nifer y digwyddiadau o ddifrod troseddol wedi gostwng o 59 i 20 yn ystod y mis cyntaf o gynnydd plismona a gostyngodd y nifer o ddigwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol o 15 i bump.

Er y cefais gadarnhad bod y model plismona presennol yn gweithio'n dda ym Mharc Caia nid oes datrysiad cyflym ar gyfer y materion heddlu a throsedd yn yr ardal, ac rwyf wedi addo i'r preswylwyr lleol y bydd adnoddau plismona yn parhau i fod yn bresennol yn yr ardal yn y dyfodol agos.

Cadarnheais i Banel yr Heddlu a Throsedd yn y cyfarfod diwethaf ym mis Mawrth 2015 fy mod wedi bod yn monitro rhai categorïau trosedd yn fanwl, gan gynnwys trais. Mae ffigyrau diwedd blwyddyn yn arddangos bod cynnydd o 11.4% yng nghategori trais gydag anaf, a chynnydd o 15.5% mewn trais heb anaf.

Er bod y ffigurau uchod yn gadarnhaol o'u cymharu â chynnydd o 30% mewn trais heb anaf ym mis Mai 2014, rwyf yn parhau i gyflawni gweithgareddau craffu cyfnodol er mwyn sicrhau bod y cynnydd a brofir yn parhau i leihau. Mae gweithgareddau craffu o'r fath wedi arddangos bod nifer cyfartalog y troseddau 'niwed difrifol' ar ei bwynt cyfartalog isaf ers 2011. Yr wyf yn sicr bod yr heddlu'n dda am ragweld amseroedd lle bydd cynnydd yn y galw mewn perthynas â thrais (er enghraifft y Nadolig a'r flwyddyn newydd) a thrwy gynllunio ar gyfer y dyfodol a thrwy waith partneriaeth mae modd i ni gael gwell rheolaeth o broblemau sy'n gysylltiedig ag alcohol a lleihau risg a niwed. Rwyf yn derbyn diweddariadau cynhwysfawr gan yr heddlu mewn perthynas â

gweithrediadau sydd ar y gweill ac ymgyrchoedd i fynd i'r afael â throseddau treisgar yng Ngogledd Cymru.


## Amcan 2 yr Heddlu a Throsedd: Darparu ymateb effeithiol

Tri mesurydd yr amcan hwn fel y nodir yn fy nghynllun yw: (1) amseroedd ymateb cyfartalog presenoldeb mewn argyfyngau'r heddlu; (2) nifer y galwadau nad ydynt yn rhai brys a gaiff eu dosbarthu fel galwadau 'a gaiff eu gadael'; a (3) adborth a gafwyd drwy arolygon dioddefwyr.

Yr amser ymateb cyfartalog oedd 14.27 munud.

Flwyddyn ar ôl blwyddyn mae gostyngiad  o 5.2% yn nifer y galwadau, i lawr o 76,190 i 72,211.

Mae'r gyfradd galwadau a gaiff eu gadael ar gyfer galwadau nad ydynt yn rhai brys yn destun craffu rheolaidd, ac ar hyn o bryd yn sefyll o amgylch tua 4%.




Ffigwr 3: cyfradd galwadau nad ydynt yn rhai brys a gaiff eu gadael (ffynhonnell:  Heddlu Gogledd Cymru)

Mae'r gyfradd galwadau a gaiff eu gadael ar gyfer galwadau nad ydynt yn rhai brys wedi cynyddu'n raddol ar ddiwedd 2014/15. Mae mis Mawrth wedi bod yn fis eithaf heriol gyda nifer o newidiadau strategol a strwythurol ar y gweill gyda'r diben o sicrhau fod yr ystafell reoli yn gallu rheoli'r galw yn fwy effeithiol.   Byddaf yn parhau i fonitro'r gyfradd galwadau sy'n cael eu gadael yn fanwl.

## Amcan 3 yr Heddlu a Throsedd: Lleihau niwed a'r risg o niwed

Roedd gan fy nghynllun 2014/15 ddau fesurydd ar gyfer penderfynu pa mor effeithiol yw perfformiad yr heddlu o ran yr amcan hwn.  Sef: nifer y bobl a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol (KSI) mewn gwrthdrawiadau ar y ffyrdd, a lefel y troseddu a ailadroddir.

Mae ffigyrau'r flwyddyn hyd yn hyn (hyd at ddiwedd mis Chwefror 2015) ar gyfer y rhai a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol ar ein ffyrdd ar hyn o bryd yn uwch na rhai'r flwyddyn flaenorol (368

o'i gymharu â 313). Fel y nodais yn gynharach, rwy'n gweithio gyda fy mhartneriaid yn yr Heddlu i sefydlu'r rhesymau dros y cynnydd hwn mewn nifer y rhai a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol ar ein ffyrdd. Rwy'n pryderu'n benodol ynglŷn â'r cynnydd yn nifer y beicwyr modur a laddwyd ac a anafwyd yn ddifrifol ar ein ffyrdd, ac felly rwy'n gweithio gyda'r heddlu i asesu'r ffactorau sy'n cyfrannu at farwolaethau neu anafiadau difrifol ar ein ffyrdd a'r tactegau sy'n cael eu defnyddio gan yr heddlu i ymdrin â'r ffactorau hynny, gan gynnwys defnyddio camerâu gorfodi cyflymder Gan Bwyll.

Y mesurydd arall a gaiff ei fonitro o fewn yr amcan hwn yw lefel y troseddu a ailadroddir. Mae atal aildroseddu yn allweddol er mwyn atal troseddau yn gyffredinol. Bu sefydlogrwydd cymharol yn lefel ffigyrau 'aildroseddwyr' ers mis Ionawr 2013. Fodd bynnag, rwy'n awyddus i ddatblygu prosiectau gyda fy mhartneriaid i sicrhau effeithiolrwydd ailsefydlu. Yn sgil hyn ymwelais â Charchar Ei Mawrhydi yn Stoke Heath ym Market Drayton i ganfod sut yr oedd carcharorion o Ogledd Cymru'n cael eu paratoi i ailsefydlu yn eu cymunedau. Mae Stoke Heath yn garchar sy'n hyfforddi, gan roi cyfle i garcharorion dderbyn addysg neu ddysgu crefft. Roeddwn yn falch o weld ansawdd yr hyfforddiant a'r cyfleusterau sydd ar gael. Mae hyfforddiant o'r fath yn galluogi cyn-droseddwyr i geisio cyflogaeth briodol pan fyddant yn cael eu rhyddhau ac mae tystiolaeth yn dangos bod ailsefydlu'n effeithiol yn ôl i'r gymuned ar ôl eu rhyddhau'n lleihau'r risg o aildroseddu'n sylweddol.
Yn dilyn cynhadledd Caethwasiaeth Fodern Cymru Gyfan a gynhaliwyd ar 23 Ionawr (mynychodd y Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd y gynhadledd), lluniwyd cynllun gweithredu lleol sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'r meysydd a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol a bydd hyn yn cael ei reoli gan weithgor gwrth-gaethwasiaeth yr heddlu. Rwy'n craffu gwaith a wnaed yn lleol mewn perthynas â chaethwasiaeth fodern yng nghyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol Strategol.

Rwyf hefyd yn parhau i graffu ar ymateb parhaus yr heddlu i adroddiad cenedlaethol Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi "Everyone's Business" oedd yn ymwneud â thrais domestig, ac arolygiad Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi o Heddlu Gogledd Cymru. Rwy'n falch o adrodd bod gwelliant sylweddol mewn perthynas â'r modd y mae'r heddlu'n delio â digwyddiadau o drais domestig, o ganlyniad uniongyrchol i gynllun gweithredu a ddatblygwyd yn lleol.

## Amcan 4 yr Heddlu a Throsedd : Magu partneriaethau effeithiol

Mae'r amcan hwn yr un mor bwysig ag unrhyw un o'r tri arall ond nid oes modd mesur perfformiad yr amcan hwn (yn sicr nid oes modd darparu mesuriad ystadegol), ac nid wyf wedi nodi unrhyw fesuryddion yn y cynllun er mwyn mesur perfformiad yr amcan hwn. Darperais drosolwg i'r panel yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr 2014 ynglŷn â'r partneriaethau ffurfiol yr wyf yn aelod ohonynt (gan gynnwys y byrddau diogelu lleol a'r byrddau gwasanaeth lleol) a'r ffaith bod Gorchymyn Mesur Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Diwygiad) 2014 wedi sefydlu Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd fel partneriaid cynllunio cymunedol statudol.

Ymysg y gweithgareddau partneriaeth yr wyf wedi'u cyflawni'n ddiweddar y mae Cyfarfod Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant, a gynhaliwyd ym mis Mai, a datblygu prosiect i ddarparu cefnogaeth i blant yr effeithir arnynt pan gaiff eu rhieni eu carcharu a hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer cyn-droseddwyr i gynorthwyo i'w hailsefydlu'n effeithiol.

## Cynllun yr Heddlu a Throsedd

Cyhoeddwyd fy Nghynllun Heddlu a Throsedd diwygiedig ym mis Ebrill 2015 yn dilyn cefnogaeth unfrydol Panel yr Heddlu a Throsedd ym mis Ionawr 2015. O ganlyniad, rwyf yn awr yn craffu ar berfformiad yr heddlu yn erbyn y mesuryddion diwygiedig.

## Yr heddlu a throsedd yn eich ardal chi

Mae gwefan y swyddfa gartref http://www.police.uk yn darparu gwybodaeth ystadegol ynglŷn â digwyddiadau troseddol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn seiliedig ar god post.

## Adran 2: Diweddariadau Cyffredinol

Yn yr adran hon rwy'n darparu crynodeb gryno i'r panel ynglŷn â'r prif bethau yr wyf wedi'u gwneud ers cyfarfod diwethaf y panel.

## Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Rhan o fy rôl yw darparu gwybodaeth a galluogi'r gymuned i ymgysylltu â phlismona. Ers cyfarfod diwethaf y panel, rwyf wedi ymgymryd â nifer o weithgareddau i godi ymwybyddiaeth o fy rôl ac i ddarparu cyfle i gymunedau Gogledd Cymru ddweud eu dweud ynglŷn â throsedd a phlismona. Mae'r canlynol yn rhestr o rai o'r uchafbwyntiau yn ystod y misoedd diwethaf:

Ym mis Chwefror, cefais gwrdd ag EM y Dywysoges Frenhinol yn ystod ei hymweliad â Chanolfan Ymchwil Henfaes ym Mhrifysgol Bangor, cefais gyfarfod aelodau Cymdeithas Preswylwyr Wrecsam, Cyngor Mwslimaidd Cymru, Janet Finch-Saunders AC (trafodaeth gyffredinol a thrafod y defnydd o gyffuriau hwb cyfreithlon), a gweinidogion Llywodraeth Cymru Leighton Andrews AC a Mark Drakeford AC. Roedd holl gomisiynwyr yr heddlu a throsedd a phrif gwnstabliaid Cymru yn bresennol yn y cyfarfod gyda'r Gweinidogion. Mynychais gyfarfodydd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan, Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru a Lloegr, cyfarfod Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant a Diogelu ac ymwelais â KIM Inspire yn Nhreffynnon. Mae KIM Inspire yn sefydliad nid er elw gyda'r nod o ddarparu llwybrau lles emosiynol i ferched trwy amrywiaeth o weithgareddau a gwaith grŵp. Mynychais ac anerchais mewn digwyddiad a gynhaliwyd gan Uchel Siryf Clwyd yn y Llysoedd Barn yn yr Wyddgrug.

Ym mis Mawrth, cynheliais yr ail Gynhadledd Dioddefwyr. Roedd y gynhadledd yn llwyddiant ysgubol ac yn cynnwys cyfraniad gan Gomisiynydd Dioddefwyr, y Farwnes Newlove, a siaradodd i gefnogi'r Ganolfan Gymorth i Ddioddefwyr fydd yn cael ei lansio ym mis Gorffennaf 2015. Roedd dioddefwr trais domestig yn annerch yn y gynhadledd hefyd gan fynegi pwysigrwydd cynnig cefnogaeth i ddioddefwyr diamddiffyn mewn dull grymus iawn.

Hefyd ym mis Mawrth, cefais gyflwyniad ar droseddau seibr i gyd-fynd â wythnos troseddau seibr, cymerais ran yn rhaglen Cyfiawnder mewn Diwrnod yn Llandudno, cefais gyfarfod diweddaru chwarterol gyda chynrychiolwyr Adran Safonau Proffesiynol yr heddlu, a chefais un o fy nghyfarfodydd rheolaidd gyda Barnwr Llywyddol Cylch Cymru yng Nghaerdydd, mynychais Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth, cyfarfod Grŵp Tryloywder Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yn Llundain, Noson Wobrwyo'r Uchel Siryf yng Nghaernarfon, digwyddiad i ddathlu 50 mlynedd Comisiwn y Gyfraith ac roeddwn yn siaradwr gwadd yng nghyfarfod Cymdeithas Meibion Maelor yn Wrecsam. Ymwelais â Charchar Stoke Heath hefyd.

Ym mis Ebrill, ymwelais â phreswylwyr, swyddogion heddlu lleol, a chynghorwyr lleol i drafod materion plismona a throsedd lleol ym Mharc Caia, Wrecsam, a chadeirio cyfarfod gyda Phrif Weithredwyr Cynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol Gogledd Cymru. Mynychais Fwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, ymwelais â'r Siop Un Stop yn Shotton a mynd allan gyda'r Bugeiliaid Stryd yn Wrecsam.

Ers cyfarfod diwethaf y panel, yn ogystal â chyfarfod gyda chynrychiolwyr y gymuned, partneriaid ac aelodau'r cyhoedd, rwyf wedi cynnal nifer o weithgareddau cyfryngau allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys:

**Bywyd Gwyllt yn Denu Cwnstabl Gwirfoddol**

**Cynhadledd Dioddefwyr**

**Canolfan Newydd i Ddioddefwyr**

**Rydym yn sefyll ynghyd**

**Stori Trais Domestig**

**Arian a atafaelwyd gan droseddwyr yn hwb i bobl ifanc**

**Diffyg ymgynghori ynghylch cau safle hofrennydd**

**Cefnogi grwpiau cymunedol gydag arian a atafaelwyd gan droseddwyr**

## Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd

Gofynnodd y Panel am wybodaeth am waith y Dirprwy Gomisiynydd. Mae'n gwbl ymroddedig i fy rhaglen waith brysur iawn, ac fe'i nodir isod:

Mae ymrwymiadau'r dirprwy gomisiynydd ers cyfarfod diwethaf Panel yr Heddlu a Throsedd wedi cynnwys y gweithgareddau craffu canlynol:

- Cyfarfod gyda chynrychiolwyr o Uned Plismona Ffyrdd yr Heddlu mewn perthynas â'r cynnydd yn nifer yr unigolion a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol ar y ffyrdd a Phartneriaeth Gan Bwyll;
- Mynychu grŵp Defnyddwyr Cofnodi Trosedd Heddlu Gogledd Cymru er mwyn craffu materion cydymffurfiaeth cofnodi troseddau;
- Mynychu Hyfforddiant Trosedd Seibr yr heddlu er mwyn penderfynu sut y mae gallu'r heddlu i ymdrin â throseddau seibr yn cael ei ddatblygu;
- Derbyn gwybodaeth gan yr heddlu ynglŷn â chydweithfa caffael cerbydau.
- Derbyn gwybodaeth ynglŷn â Rhaglen Ymyrraeth Cyffuriau Gogledd Cymru;
- Mynychu cyfarfod MARAC Sir Ddinbych;
- Mynychu Bwrdd Cydweithredu'r heddlu, lle y darperir diweddariadau ar gydweithredu'r gwasanaethau brys, gweithgareddau cydweithredu Cymru gyfan a gweithgareddau cydweithredu yn y Gogledd Orllewin;
- Mynychu Pwyllgor Diwylliant ac Arweinyddiaeth Moeseg yr heddlu;
- Mynychu adolygiad perfformiad y Prif Swyddogion ar gyfer swyddogaeth cefnogi'r gweithrediadau;

- Mynychu nifer o gyfarfodydd i drafod cylch gorchwyl posibl ar gyfer adolygiad Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgol Cymru Gyfan;
- Cadeirio cyfarfod Bwrdd Prosiect Strategaeth Integredig ar gyfer Dioddefwyr, a
- Mynychu hyfforddiant atgoffa Taser, lle bu'r Dirprwy Gomisiynydd yn gwylio mynychwyr y cwrs yn delio â senario ffug.

Mae ei ymrwymiadau wedi cynnwys y gweithgareddau ymgysylltu cymunedol canlynol hefyd:

- Darparu 2 ddarlith i fyfyrwyr blwyddyn 2 Gradd Sylfaen y Cwrs Plismona, ynglŷn â 'chynhyrchu a statws cynllun yr heddlu a throsedd' a 'marchnata cynllun yr heddlu a throsedd'.
- Mynychu cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaeth Lleol Wrecsam a Bwrdd Gwasanaeth Lleol Conwy a Sir Ddinbych;
- Darparu gwybodaeth i'r Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu newydd ynglŷn â rôl comisiynydd yr heddlu a throsedd;
- Mynychu gweithdy rhanbarthol Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu yn Swydd Gaer a llunio sylwadau drafft i Fwrdd Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu wedi hynny. Canlyniad hyn oedd anfon llythyr at Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gorllewin Swydd Efrog, Mark Burns-Williamson, yn egluro ein honiad bod prosesau'r ymgynghoriad a llunio penderfyniadau yn ddiffygiol mewn perthynas â phenderfyniad Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu i fabwysiadu model gweithredol sy'n cynnwys gostwng i 15 o safleoedd (gan gynnwys cyfeiriadaeth at gau safle Rhuddlan);
- Mynychu Cynhadledd Dioddefwyr y Comisiynydd;
- Mynychu cyfarfod Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru;
- Cyfarfod gyda Ms Judith Magaw, o Gwmni Ailsefydlu Cymunedol Cymru ynglŷn â rheolaeth troseddwyr integredig yng Ngogledd Cymru;

## Comisiynu

Ers yr adroddiad blaenorol i'r Panel mae'r holl achosion busnes wedi'u cyflwyno o'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ac anfonwyd gohebiaeth yn cadarnhau bod arian wedi'i gadarnhau ar gyfer 2015-16.

Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd mewn perthynas â chomisiynu gwasanaethau cefnogaeth i ddioddefwyr (gan gynnwys gwasanaethau cyfiawnder adferol) 2015-16. Daw'r arian gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac mae'n berthnasol i bedair adran o weithgarwch, sef:

- Gwasanaethau i ddioddefwyr
- Cyfiawnder adferol
- Trais Rhywiol / Trais Domestig
- Deddf Carcharorion Enillion

Bydd yr arian yn cefnogi'r 'Ganolfan Gymorth i Ddioddefwyr' a lansiwyd ar 20 Mawrth yng Nghynhadledd Dioddefwyr y Comisiynydd yng Nghanolfan Fusnes Conwy. Bydd aelodau'r Panel yn cofio o fy niweddariad yng nghyfarfod y panel ym mis Mawrth fod gennyf ymrwymiad i ariannu darpariaeth ISVA ac IDVA yn y rhanbarth.

**Cyllideb Gyfranogol:**

Yn dilyn llwyddiant y cynllun yn 2014, bydd y cynllun cyllidebu cyfranogol yn parhau eleni ac fel y nodwyd yng nghyfarfod blaenorol y panel bydd yr amserlen yn cael ei chadarnhau ar ôl ei phennu. Gofynnaf am gefnogaeth aelodau'r panel i hysbysu eu cymunedau o'r gronfa hon a'r cyfleoedd rhagorol a gynigir i'r grwpiau cymunedol. Bydd manylion ar gael ar fy ngwefan maes o law.

## Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014

Cyflwynodd Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 ddau fesur newydd er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Sef y sbardun cymunedol a'r datrysiad cymunedol.

Sbardun Cymunedol – rhoi'r gallu i ddioddefwyr fynnu gweithredoedd sy'n dechrau gydag adolygiad o'u hachos, os diwallir y trothwy a ddiffinnir yn lleol.

Dim ond cais a dderbyniwyd ar gyfer sbardun cymunedol ers ei gyflwyno ym mis Hydref 2014 ond nid oedd y cais hwnnw'n diwallu'r trothwy.

Datrysiad Cymunedol – rhoi llais i ddioddefwyr ynghylch cosbau i droseddwyr y tu allan i'r llys am droseddau lefel isel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Roedd y Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gomisiynwyr yr heddlu a throsedd i ymgynghori â'r gymuned leol ynghylch pa ddulliau adferol yr oeddent am eu cynnwys yn y ddogfen datrysiad. Ymgynghorais ar ffurf arolwg ar-lein oedd ar fy ngwefan rhwng mis Awst a mis Hydref 2014.

Mae'r tabl isod yn dangos y nifer o weithiau y mae pob dull adferol o restr datrysiadau'r gymuned wedi'u defnyddio.

| Disgrifiad Statws Trosedd | Datrys | Ymddiheuriad ar lafar | Llythyr yn ymddiheuro | Iawndal i'r dioddefwr | Cytuno ar gamau gwneud iawn | Cytuno ar driniaeth | Cytuno i gyfryngu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Datrysiad Cymunedol | 496 | 240 | 122 | 69 | 47 | 17 | 1 |

## Dinasyddion mewn Plismona

Mae Strategaeth Dinasyddion mewn Plismona yn brosiect a gefnogir gan fy swyddfa. Y bwriad yw ychwanegu gwerth a chefnogi gwaith Heddlu Gogledd Cymru trwy wneud mwy o ddefnydd o wirfoddolwyr. Trwy gynyddu nifer y Cwnstabliaid Arbennig, Gwirfoddolwyr Cefnogi'r Heddlu a sefydlu Cynllun Cadetiaid Heddlu gwirfoddol newydd ar gyfer pobl ifanc (tri maes allweddol y prosiect), nod y strategaeth yw dod â'r gymuned yn agosach at blismona yng Ngogledd Cymru. Rwyf eisiau cadarnhau mai'r bwriad yw y bydd y gwirfoddolwyr yn ychwaneg i'r staff a'r swyddogion ac ni fyddant yn eu disodli.

Dilyswyd y strategaeth ym mis Chwefror gan yr Uwch Fwrdd Gweithredol. Mae llawer o'r gwaith i gefnogi'r strategaeth wedi bod ar y gweill ers peth amser. Mae'n cael ei fonitro gan Grŵp Rhaglen Strategol Dinasyddion mewn Plismona dan arweinyddiaeth y Prif Gwnstabl Cynorthwyol, Richard Dibicki. Mae fy swyddfa'n mynychu cyfarfodydd y grŵp er mwyn fy hysbysu o'r cynnydd ac o unrhyw faterion sydd angen eu datrys.

Byddaf yn parhau i gefnogi gwaith Dinasyddion mewn Plismona ac yn edrych ymlaen at weld datblygiadau ym mhob un o'r meysydd allweddol dros y chwe mis nesaf.

## Cyd-Bwyllgor Archwilio

Cyfarfu'r Cyd Bwyllgor Archwilio ar 25 Chwefror. Yn ogystal â'r eitemau sy'n cael eu trafod ym mhob un o'r cyfarfodydd, ystyriwyd strategaeth rheoli'r trysorlys ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer 2015/16; ystyriwyd y cynlluniau archwilio mewnol ac allanol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod; a derbyn diweddariad ar swydd Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau.

Mae gwybodaeth bellach ar waith y Cydbwyllgor Archwilio yn yr adroddiad ar wahân.

## HMIC

Cynrychiolwyd fy swyddfa mewn dau ddigwyddiad cenedlaethol a drefnwyd gan yr HMIC yn ddiweddar i drafod plismona mewn cyfnod o galedi a'r newidiadau pellach fydd yn ofynnol o ganlyniad i doriadau parhaus,.

Ym mis Ebrill, cynhaliodd yr HMIC arolwg PEEL o'r heddlu (Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu). Rwy'n disgwyl am y canfyddiadau a'r argymhellion.

## NPAS

Yn ystod cyfarfod mis Mawrth 2015 Panel yr Heddlu a Throsedd, hysbysais y panel fy mod yn anfodlon gyda'r broses a ddefnyddiwyd gan Fwrdd Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu (NPAS) i lunio penderfyniad i gau'r safle awyr yn Rhuddlan ym mis Medi 2015. Mae trafodaethau gyda Bwrdd Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu (sy'n cynnwys yr holl gomisiynwyr heddlu a throsedd a phrif gwnstabliaid eraill) yn parhau a nes y byddant wedi dod i ben ni allaf hysbysu'r panel o'r penderfyniad terfynol.

## Plant yr effeithir arnynt gan rieni yn y carchar

Rwyf yng nghanol y broses o ddatblygu prosiect ar gyfer Gogledd Cymru fydd yn darparu cefnogaeth i blant sydd â rhieni yn y carchar. Mae'r galw am gymorth ar gyfer y plant hyn yn amlwg ond yn brin iawn.

Amcangyfrifir bod dros 200,000 o blant yng Nghymru a Lloegr wedi'u heffeithio ar yr un pryd gan rieni yn y carchar. Mae tua 18,000 ohonynt â mam yn y carchar, ond nid oes gofyniad i hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol pan fydd rhiant yn cael ei ddedfrydu neu eu cadw yn y carchar. Mae hyn yn awgrymu bod bron i deirgwaith yn fwy o blant yn profi gwahaniad ac ymyrraeth teuluol oherwydd bod rhiant yn y carchar na'r nifer sy'n cael eu rhoi mewn gofal yng Nghymru a Lloegr bob blwyddyn. Ar hyn o bryd, nid oes proses ar waith yn unman yng Ngogledd Cymru i ganfod y plant yr effeithir arnynt gan rieni yn y carchar, ac yn ôl canlyniadau'r cais rhyddid gwybodaeth a wnaed gan fy swyddfa, nid yw'r chwe awdurdod lleol yn cofnodi'r wybodaeth hon.

Pam fy mod yn credu ei bod yn allweddol cefnogi plant sydd â rhieni yn y carchar?

- Mae colli rhiant trwy eu carcharu wedi'i gymharu â phrofedigaeth (Shaw, 1992).

- O'r 17,250 o blant sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu mam oherwydd ei bod yn y carchar yn 2010 dim ond 5% ohonynt a fu'n parhau i fyw yng nghartref y teulu tra bu'r fam yn y carchar.

- Os yw plant yn derbyn cefnogaeth effeithiol yn ystod y cyfnod tra bo'r rhieni yn y carchar, mae'r rhieni a droseddodd yn ei gweld yn llawer haws ailsefydlu ar ôl eu rhyddhau ac yn llai tebygol o aildroseddu. Dengys tystiolaeth os yw plant yn cael eu gadael mewn amgylchiadau anhrefnus pan fydd eu mam yn mynd i'r carchar, caiff hyn effaith niweidiol ar iechyd meddwl y fam pan fydd hi yn y carchar. O ganlyniad uniongyrchol, mae ailsefydlu effeithiol yn anodd iawn.

- Mae tystiolaeth bod carcharu rhieni yn cael effaith negyddol ar les plant a phobl ifanc.

- Yn 2007 nododd adolygiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn perthynas â phlant yr effeithir arnynt am fod eu rhieni yn y carchar: 'Mae'n amlwg am sawl rheswm fod plant carcharorion mewn perygl uwch na'r boblogaeth plant ehangach ac yn debygol o fod angen cefnogaeth helaeth. Mae carcharu rhieni felly'n cyflwyno cyfle i ganfod plant sy'n wynebu risg canlyniadau gwael ac i gynnig cefnogaeth i liniaru effeithiau carcharu'r rhieni a'u hamgylchiadau.' Mae ymchwil yn awgrymu bod plant yr effeithir arnynt ddwywaith yn fwy tebygol o brofi problemau iechyd meddwl a bod bechgyn sydd â thad yn y carchar deirgwaith yn fwy tebygol o arddangos ymddygiad troseddol eu hunain o'u cymharu â'u cyfoedion.

Felly, mae cefnogi plant sydd â rhieni yn y carchar yn bwysig nid yn unig er mwyn atal aildroseddu gan y rhieni ar ôl eu rhyddhau ond hefyd i atal y plant rhag cyflawni trosedd pan fyddant yn hŷn.

Mae plant gyda rhiant yn y carchar:

- Ddwywaith yn fwy tebygol na phlant eraill o brofi problemau ymddygiad ac iechyd meddwl
- Yn llai tebygol o wneud yn dda yn yr ysgol
- Yn fwy tebygol o gael eu diarddel
- Yn fwy tebygol o gael eu harestio a'u carcharu fel oedolion ifanc
- Deirgwaith yn fwy tebygol o gyflawni gweithgareddau troseddol eu hunain.

Felly, gallai olygu costau sylweddol i'r awdurdodau lleol a'u partneriaid (gan gynnwys yr heddlu) pe na baent yn delio â phlant sydd â rhieni yn y carchar yn effeithiol.

O ystyried yr uchod, yn ddiweddar tynnais sylw fy mhartneriaid ar Fwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru fod plant yr effeithir arnynt gan riant yn y carchar yn grŵp hynod ddiamddiffyn ac y dylid delio â'u hanghenion trwy ymestyn darpariaeth y gwasanaethau presennol. Credaf y dylai fy mhartneriaid fod yn rhagweithiol i nodi plant o'r fath.

Rwyf wrthi'n datblygu Siarter Sefydliadol ar gyfer Plant yr Effeithir Arnynt gan Rieni yn y Carchar. Bydd partneriaid sy'n cofrestru ar gyfer y siarter yn ymrwymo'n swyddogol i weithio gyda'n gilydd i ddarparu cefnogaeth ymarferol ac emosiynol i blant yr effeithir arnynt gan rieni yn y carchar.

## Gohebiaeth

**Ffigyrau gohebiaeth o'r 1 Chwefror i'r 30 Ebrill**

| ***Categori Gohebiaeth*** | ***Nifer*** |
|---|---|
| Adborth penodol ynglŷn â'r gwasanaeth plismona | 101 - nifer o eitemau lluosog gan yr un unigolion |
| Adborth cyffredinol ynglŷn â'r gwasanaeth plismona | 43 |
| Cwynion a atgyfeiriwyd at yr Adran Safonau Proffesiynol | 7 |
| Materion staffio (gall hyn cynnwys trefniadau ar gyfer paneli camymddwyn, tribiwnlys apeliadau'r heddlu, gohebiaeth gan gymdeithasau staff a materion perthnasol eraill) | 3 |
| Gohebiaeth gyffredinol | 346 |

**EITEM RHAGLEN 8c**

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

2014/15




SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

# Cynnwys

Cyflwyniad ... 2

Adran Un: Y Cynllun Heddlu a Throsedd ... 4

Adran Dau: Cyflawni rôl y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ... 8

Cyllid ac Ariannu ... 11

Cyllideb yr Heddlu ... 11

Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ... 12

Atodiad A – Dosbarthiad Cronfa'r Comisiynydd 2014/15 ... 13

## Cyflwyniad

Dyma'r ail adroddiad blynyddol i mi ei gynhyrchu ers i mi gael fy ethol ym mis Tachwedd 2012 fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd cyntaf Gogledd Cymru. Fe'i cynhyrchir yn unol â gofynion adran 12 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf) ac mae'n cyfeirio at y flwyddyn ariannol Ebrill 2014 i Mawrth 2015. Bydd yn canolbwyntio ar y ffordd rwyf wedi cyflawni fy swyddogaethau a'm cyfrifoldebau yn ystod y flwyddyn honno a'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn o ran bodloni amcanion fy Nghynllun Heddlu a Throsedd (y Cynllun).

Fy mhrif gyfrifoldebau fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd yw

- sicrhau gweithrediad Heddlu effeithiol ac effeithlon ar gyfer Gogledd Cymru;
- dal y Prif Gwnstabl yn atebol am gyflawni ei swyddogaethau a'r rhai hynny sydd o dan ei gyfarwyddyd a'i reolaeth; a
- dod â'r partneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol ynghyd er mwyn cydweithredu â chomisiynwyr heddlu a throsedd eraill a ffurfio a gweithredu strategaethau ledled ardal Heddlu Gogledd Cymru.

Mae fy nghyfrifoldebau eraill yn cynnwys cyhoeddi cynllun heddlu a throsedd (sy'n gosod y strategaethau plismona ar gyfer Gogledd Cymru), gosod y praesept (y gwahaniaeth rhwng y cyllid a roddir gan y Llywodraeth a chost plismona yng Ngogledd Cymru) a chael safbwyntiau'r bobl leol a dioddefwyr trosedd.

Byddaf yn mynd i'r afael â'r cyfrifoldebau hynny yn yr adroddiad hwn ond hoffwn gyfeirio'n benodol at y cynnydd sylweddol sydd wedi'i wneud yn ystod y deuddeg mis diwethaf o ran darpariaeth cymorth i ddioddefwyr yng Ngogledd Cymru. Er mwyn fy nghynorthwyo gyda fy mharatoadau ar gyfer y newid mewn trefniadau ariannu gwasanaethau dioddefwyr a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2015, comisiynais 'Yr Asesiad Anghenion ar gyfer Datblygiad Gwasanaethau Dioddefwyr yng Ngogledd Cymru' (Asesiad Anghenion) a gyhoeddais ym mis Mai 2014. Ffurfiodd yr Asesiad Anghenion sail y camau dilynol yn natblygiadau gwasanaethau dioddefwyr yng Ngogledd Cymru.

Mae'r Asesiad Anghenion wedi hysbysu gwaith y tîm prosiect, o dan arweiniad fy Nirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd, Julian Sandham. Ym mis Gorffennaf 2015, o ganlyniad uniongyrchol i'r Asesiad Anghenion, byddaf yn agor Canolfan Cymorth Dioddefwyr newydd. Mi fydd wedi'i leoli yn Llanelwy, sy'n ardal ganolog yng Ngogledd Cymru a caiff ei hariannu o fy nghyllideb. Hoffwn ddiolch i Julian Sandham, y tîm prosiect a staff fy swyddfa am eu gwaith rhagorol wrth sefydlu'r adnodd hanfodol hwn ar gyfer dioddefwyr. Edrychaf ymlaen at weld cynnydd y Ganolfan Gymorth dros y flwyddyn sydd i ddod.

Mae'r deuddeg mis diwethaf wedi bod yn gyfnod lle mae llawer o alw wedi bod ar Swyddogion a Staff Heddlu Gogledd Cymru. Gwelwyd cynnydd sylweddol mewn troseddau cysylltiedig â therfysgaeth ac achosion lle targedwyd yr Heddlu. Gwelwyd cynnydd hefyd mewn troseddau megis camfanteisio'n rhywiol ar blant a throseddau seiber. Mae'r mathau hyn o droseddau yn ychwanegu'n sylweddol at yr heriau sy'n wynebu plismona modern ac at y pwysau ariannol ar yr Heddlu mewn cyfnod lle mae'n dioddef toriadau ariannol sylweddol.

Er yr heriau sylweddol hynny, mae lefelau trosedd yng Ngogledd Cymru wedi parhau i ostwng, gostyngiad o 0.2% - gostyngiad bychan, ond gostyngiad er hynny. Rhaid cydnabod y daw y gostyngiad hwn yn dilyn gostyngiadau parhaus mewn lefelau trosedd yng Ngogledd Cymru dros y pum mlynedd diwethaf. Yn ystod y deuddeg mis diwethaf hefyd fe welwyd ergyd sylweddol i gyflenwad cyffuriau anghyfreithlon yng Ngogledd Cymru wrth i chwech ar hugain o bobl gael eu

carcharu am gyfanswm o 127 mlynedd am gynllwynio i gyflenwi cyffuriau rheoledig. Mae’r Heddlu i’w ganmol am sicrhau canlyniadau cystal mewn cyfnod o doriadau ariannol a heriau.

Mae canlyniadau mwyaf diweddar Arolwg Trosedd Cymru a Lloegr (hyd at ddiwedd Rhagfyr 2014) yn dangos bod Heddlu Gogledd Cymru wedi cyflawni gwelliannau mewn nifer o feysydd, sydd wedi’u crynhoi isod. Mae nifer o’r mesurau yn ymwneud mewn rhyw ffordd â’r hyder sydd gan y cyhoedd yn Heddlu Gogledd Cymru.

- **Dealltwriaeth Cymunedol**– mae nifer y bobl sy’n meddwl bod gan Heddlu Gogledd Cymru ddealltwriaeth o faterion cymunedol wedi codi. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi codi wyth lle i’r 2il safle yn genedlaethol (allan o 43 o heddluoedd).
- **Parch** – mae nifer y bobl sydd o’r farn bod Heddlu Gogledd Cymru yn trin pobl â pharch wedi codi hefyd. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi symud i fynnu 5 lle i’r 6ed safle yn genedlaethol.
- **Yr Heddlu yn delio â phryderon** – Mae Heddlu Gogledd Cymru yn 10fed yn genedlaethol yn y maes hwn, sy’n gynnydd o chwe lle ar y chwarter blaenorol.
- **Yr Heddlu yn gwneud gwaith Da/Rhagorol** – Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi mynd i fynnu saith lle yn genedlaethol i’r 21ain safle, sy’n rhoi Heddlu Gogledd Cymru ar yr un lefel â’r cyfartaledd cenedlaethol.
- **Hyder** – Mae nifer o bobl wedi nodi bod ganddynt hyder yn Heddlu Gogledd Cymru. Mae hyn wedi arwain i Heddlu Gogledd Cymru ddringo 8 lle i fod yn 25ain safle yn genedlaethol (o’i gymharu â safle 42 yn genedlaethol ym mis Rhagfyr 2013).
- **Trin yn deg** – mae’r Heddlu wedi codi un ar ddeg lle i fod yn 12fed yn genedlaethol.

Wrth gwrs, mae’r Prif Gwnstabl a minnau yn cydnabod mai gwella mae’r sefyllfa yn hytrach na bod y sefyllfa yn un berffaith. Mae’n amlwg bod gan yr Heddlu waith i’w wneud mewn rhai meysydd er mwyn sicrhau ei fod yn perfformio cystal â phosibl. Fodd bynnag, does gen i ddim amheuaeth nad drwy hap a damwain y mae’r gwelliannau hyn wedi digwydd ond yn hytrach drwy ymdrechion bwriadol a gwaith caled. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i’r Prif Gwnstabl a’i dîm am eu hymdrechion parhaus i gadw Gogledd Cymru’n ddiogel. Edrychaf ymlaen i ddatblygu ar y cynnydd hwn yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i drigolion Gogledd Cymru. Rydw i wedi teithio ledled Gogledd Cymru ar sawl achlysur yn ystod y deuddeg mis diwethaf ac wedi ymgynghori â’r cyhoedd, awdurdodau statudol, y gymuned fusnes a sefydliadau trydydd sector yng Ngogledd Cymru. Rwy’n ddiolchgar i chi gyd am eich cyfraniadau gwerthfawr a’ch cefnogaeth barhaus.



**Winston Roddick CB QC**
**Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

# Adran Un: Y Cynllun Heddlu a Throsedd

Fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd, arna 'i mae'r cyfrifoldeb am gyfeiriad strategol plismona yng Ngogledd Cymru a'r Prif Gwnstabl sy'n gyfrifol am faterion gweithredol.

Mae'r cyfeiriad strategol hwnnw wedi'i amlinellu yn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd. Er i mi gwblhau'r ail adolygiad o fy Nghynllun yn ddiweddar, bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cynnydd yn erbyn y Cynllun Heddlu a Throsedd a gyhoeddwyd yn Ebrill 2014 (Cynllun 2014/15).

Cadwodd Cynllun 2014/15 y tri canlyniad a geisiais yn fy nghynllun cyntaf sef diogelwch yn y cartref, bod yn saff mewn mannau cyhoeddus a phlismona gweladwy a hygyrch. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau'r canlyniadau hynny cyflwynais bedwar amcan heddlu a throsedd newydd yng Nghynllun 2014/15, sef

1. Atal trosedd
2. Darparu ymateb effeithiol
3. Lleihau niwed a'r risg o niwed
4. Adeiladu partneriaethau effeithiol

## Yr Amcanion Heddlu a Throsedd

## Atal trosedd

Atal trosedd rhag digwydd yw'r ffordd fwyaf effeithiol o amddiffyn ein cymunedau a sicrhau bod pobl yn ddiogel yn eu cartrefi ac yn saff mewn mannau cyhoeddus.

Er mwyn dal y Prif Gwnstabl yn atebol ac er mwyn mesur perfformiad Heddlu Gogledd Cymru yn erbyn yr amcan hwn, mae Cynllun 2014/15 yn nodi pedwar mesur:

1. Lefel cyfanswm y troseddau a gofnodwyd
2. Lefel y troseddau sy'n seiliedig ar y dioddefwr
3. Lefel y troseddau sydd wedi'u datrys, yn ôl y mathau o drosedd
4. Lefel yr ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd wedi'i gofnodi

## Darparu ymateb effeithiol

Mae dyletswydd statudol ar yr Heddlu, eu partneriaid yn y sector cyfiawnder troseddol a'r awdurdodau perthnasol megis yr awdurdodau lleol a'r gwasanaethau brys eraill, i ddarparu ymateb effeithiol i droseddau neu faterion diogelwch cyhoeddus. Mae fy nghynllun heddlu a throsedd yn nodi nifer o ddisgwyliadau mewn perthynas â sicrhau'r amcan hwn, gan gynnwys darpariaeth y Cod Ymarfer Dioddefwyr a delio â'r bygythiadau o fewn y Gofyniad Plismona Strategol.

Er mwyn dal y Prif Gwnstabl yn atebol ac er mwyn mesur perfformiad Heddlu Gogledd Cymru yn erbyn yr amcan hwn, mae'r Cynllun 2014/15 yn nodi tri mesur

1. Cyfartaledd amseroedd ymateb yr heddlu i argyfyngau
2. Y nifer o alwadau difrys a nodir fel 'galwadau wedi'u gadael'
3. Yr adborth a dderbynnir drwy arolygon dioddefwyr

## Lleihau niwed a'r risg o niwed

Mae lleihau niwed a'r risg o niwed i'n cymunedau yn hynod o bwysig. Yn Awst 2014, gwelwyd codi lefel y bygythiad o derfysgaeth rhyngwladol i'r DU i "difrifol". Nid ydym wedi ein heithrio rhag y bygythiad hwn yng Ngogledd Cymru ac mae'n her pellach i'r Heddlu yn ystod y cyfnod hwn o doriadau ariannol sylweddol.

Mae'r troseddau sydd wedi'u cynnwys o fewn yr amcan hwn, megis trais domestig, yn aml iawn yn digwydd tu ôl i ddrysau caeedig ac yn aml iawn mae'r dioddefwyr yn ddiamddiffyn a chanddynt ofn canlyniadau riportio digwyddiadau i'r heddlu. Rwy'n disgwyl i'r Prif Gwnstabl gydbwyso'r disgwyliad yr ydw i wedi'i osod ar gyfer plismona gweladwy gyda'r adnoddau sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â'r troseddau hynny sy'n achosi niwed difrifol.

Er mwyn dal y Prif Gwnstabl yn atebol o ran perfformiad yn erbyn yr amcan hwn, roedd y Cynllun 2014/15 yn cynnwys dau fesur:

1. Nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol (KSI) mewn gwrthdrawiadau traffig y ffordd.
2. Lefelau aildroseddu

## Adeiladu partneriaethau effeithiol

Nid dim ond yr Heddlu sy'n gweithio tuag at atal trosedd, darparu ymatebion priodol a lleihau niwed a'r risg o niwed. Mae gweithio mewn partneriaeth yn galluogi ymatebion sy'n fwy effeithiol a hirdymor eu heffaith ar ein cymunedau, nag a fyddent fel arall. Mae hefyd yn lleihau galw ac felly'n cynyddu capasiti staff rheng flaen gan wneud i'r arian fynd yn bellach.

Gan fod y materion sy'n codi o achosion sy'n ymwneud â thrais domestig, ecsbloetio plant yn rhywiol a throseddau difrifol eraill o'r fath yn rhai ehangach eu heffaith ac yn rhai sy'n ymwneud â mwy na phlismona yn unig, gellir ond darparu ymateb effeithiol mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill. Wrth i'r pwyslais ar y troseddau hyn gynyddu, bydd pwysigrwydd gwaith partneriaeth hefyd yn cynyddu.

Nid yw'r ffaith nad oedd Cynllun 2014/15 yn cynnwys unrhyw fesurau ar gyfer yr amcan hwn yn ei gwneud yn llai pwysig na'r tri arall. Yn wir, i'r gwrthwyneb. Er mwyn bodloni'r heriau ariannol a wynebir yn y dyfodol, rhaid i asiantaethau statudol, yn cynnwys yr Heddlu, barhau i gydweithio'n effeithiol mewn partneriaeth er mwyn gorchfygu rhai o'r heriau hynny. Yn y cyswllt hwnnw, rwy'n falch o'r cynnydd sydd wedi'i wneud gan y Ganolfan Ddiogelu Aml-asiantaeth (MASH) yn Wrecsam. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd cydweithio a byddaf yn annog yr holl bartneriaid statudol i drafod a cheisio adnabod ffyrdd o integreiddio darpariaeth rheng flaen yn y dyfodol.

## Perfformiad

Fy nod yn dal i fod yw lleihau trosedd ac yn enwedig troseddau sy'n seiliedig ar y dioddefwr, dros gyfnod fy nghynllun (2013 i 2016).

Rwy'n mesur perfformiad drwy gymharu yn erbyn y flwyddyn Ebrill 2011 i Mawrth 2012. Rwy'n cymharu yn erbyn y flwyddyn benodol honno gan mai dyma'r flwyddyn lawn gyntaf cyn i'r drefn o lywodraethu plismona newid ym mis Tachwedd 2012 gydag etholiadau'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd cyntaf.

Rydw i hefyd wedi darparu cymhariaeth yn erbyn y flwyddyn ariannol flaenorol er mwyn adnabod unrhyw feysydd sy'n achosi pryder sydd hefyd yn fy nghynorthwyo i graffu ar y Prif Gwnstabl ac i'w ddal yn atebol yn erbyn fy Nghynllun.

Yn 2014, cynhaliodd Arolygiaeth Heddluoedd Ei Mawrhydi (AHEM) arolwg i safonau ac arferion cofnodi trosedd yn yr holl Heddluoedd yng Nghymru a Lloegr (Arolwg oedd hwn o ba mor gywir oedd Heddluoedd wrth gofnodi trosedd). Llwyddodd Heddlu Gogledd Cymru i gyflawni graddfa gydymffurfio o 94% ac maent yn y pum heddlu sy'n perfformio orau. Mae hyn yn hynod bwysig. Mae'n dweud wrtha i, a phobl Gogledd Cymru, bod fy Nghynllun Heddlu a Throsedd wedi'i adeiladu ar sylfaen o ddata manwl gywir. Mae'n cadarnhau bod fy nghraffu o berfformiad yr Heddlu yn seiliedig ar wybodaeth fanwl gywir.

### Tabl A – Perfformiad yn erbyn mesurau

| Amcan | Mesur | 2014/15 | 2013/14 | Gwaelodlin 2011/12 | % newid o'r gwaelodlin |
|---|---|---|---|---|---|
| Atal Trosedd | Cyfanswm troseddau a gofnodwyd | 36,478 | 36,530 | 41,947 | -13% |
| | Troseddau seiliedig ar ddioddefwr | 35,828 | 35,929 | 41,214 | -13.1% |
| | Troseddau a ddatryswyd, yn ôl math o drosedd | 34.5% | 33.4% | 34.5% | 0% |
| | Ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodwyd | 23,570 | 25,606 | 30,160 | -21.9% |
| Darparu ymateb effeithiol | Cyfartaledd amseroedd ymateb yr heddlu i argyfyngau | 14.3 | 14.8 | 15 | -4.7% |
| | Y nifer o alwadau difrys a nodir fel galwadau wedi'u gadael | 3.2% | 5% | 6.5% | -3.3pp |
| | Yr adborth a dderbynnir drwy arolygon dioddefwyr | 80.8% | 79% | 80.6% | 0.2% |
| Lleihau niwed a'r risg o niwed | Nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol (KSI) mewn gwrthdrawiadau traffig y ffordd | 382 | 342 | 382 | 0% |
| | Lefelau troseddu dro ar ôl tro | 7,035 | 6,674 | 10,035 | -29.9% |

Mae colofn olaf y tabl yn dangos yn glir y lefel ragorol o berfformiad dros y deuddeg mis diwethaf ac rydym ar trywydd iawn i gyflawni fy mhrif amcan o leihau trosedd dros gyfnod fy Nghynllun.

Roedd gostyngiad o 13% mewn troseddau a gofnodwyd yn 2014/15 o'i gymharu â 2011/12, a roedd gostyngiad o 13.1% yn nifer y troseddau sy'n seiliedig ar y dioddefwr. Mae hynny gyfwerth â **5,386 yn llai o ddioddefwyr yng Ngogledd Cymru.**

Yn ystod yr un cyfnod, gwelwyd gostyngiad yn y lefel o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol hefyd, **cyfwerth â 6,590 yn llai o achosion** wedi'u cofnodi gan Heddlu Gogledd Cymru.

Rydw i'n hynod o falch o weld y gostyngiad sylweddol yn nifer y troseddau a gyflawnwyd gan droseddwyr sy'n troseddu dro ar ôl tro, gostyngiad o 29.9% sydd gyfwerth â 3,000 o droseddau. Yn ogystal, bydd y gostyngiad hwnnw wedi arwain at ostyngiad yn nifer y dioddefwyr dro ar ôl tro. Mae'r cyraeddiadau sylweddol hyn yn adlewyrchu'r buddsoddiad mae Heddlu Gogledd Cymru wedi'i wneud yn yr Uned Rheoli Troseddwyr Integredig (IOM). Mae'r Uned IOM yn bartneriaeth ar y cyd sy'n cynnwys Heddlu Gogledd Cymru, Swyddogion Llety y Gwasanaeth Prawf a Y Gwasanaeth Carchardai. Mae hefyd yn cael eu gefnogi gan weithwyr y Rhaglen Ymyrraeth Iechyd a Chyffuriau (Arch) a llawer mwy. Mae'n gweithredu ledled ardal yr Heddlu. Mae'r Uned yn rheoli carfan o droseddwyr ac yn goruchwylio'r ffordd mae'r Cynllun Troseddwyr Cyson Iawn a Blaenoriaeth (PPO) yn cael ei redeg. Prif nod yr uned yw lleihau aildroseddu a chyflawni canlyniadau cadarnhaol.

Wrth fesur troseddau wedi'u datrys, rydw i wedi canolbwyntio ar ganlyniadau a fyddai, yn hanesyddol wedi'u cyfeirio atynt fel 'troseddau a ddatgelwyd'. Yn Ebrill 2014 fe gyflwynwyd gofynion cofnodi trosedd newydd gan y Swyddfa Gartref. Yn y gorffennol, cofnodwyd troseddau fel rhai "a ddatgelwyd" neu rhai "na ddatgelwyd". Dyna'r unig ddau gategori. Roedd yn rhaid i'r holl ddatrysiadau neu ganlyniadau ddisgyn i un o'r ddau gategori. O dan y gofyniad cofnodi newydd, mae 18 categori o ganlyniadau sy'n rhoi disgrifiad llawer mwy manwl gywir o'r canlyniad. Mae rhestr lawn o'r categorïau ar gael ar wefan y Swyddfa Gartref.

Tra bo'r lefel o droseddau a ddatryswyd yr un fath â 2011/12, mae hwn yn faes y byddaf yn ei adolygu'n barhaus drwy fy mhrif bwyllgor craffu, sef y Bwrdd Gweithredol Strategol. Nid yw'r ystadegau hyn yn adlewyrchu y pwyslais mae'r Heddlu yn ei roi ar gyfiawnder adferol, datrysiadau cymunedol a chamau unioni cymunedol sydd i gyd wedi profi'n hynod lwyddiannus. Rwy'n parhau i dderbyn adborth cadarnhaol gan ddioddefwyr yn y cyswllt hwn.

Drwy'r Bwrdd Gweithredol Strategol hefyd y mae'r Prif Gwnstabl wedi bod yn fy niweddaru mewn perthynas â'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol mewn gwrthdrawiadau traffig y ffyrdd. Tra bo'r lefel yn parhau i fod yr un fath ac yn 2011/12, gwelwyd cynnydd o 40 o'i gymharu â'r deuddeg mis blaenorol. Mae hwn yn faes sy'n achosi pryder ac mae'r Heddlu yn ymwybodol o fy mhryderon. Mae gweithgareddau craffu eisoes wedi'u cyflawni yn y cyswllt hwn a bydd mwy yn digwydd dros y misoedd nesaf er mwyn i mi fod yn fodlon bod yr Heddlu yn gwneud popeth o fewn ei allu i leihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ein ffyrdd.

Ni all Heddlu Gogledd Cymru fynd i'r afael â'r mater hwn ar ei ben ei hun a bydd fy amcan o waith partneriaeth effeithiol yn hanfodol er mwyn lleihau nifer yr achosion o farwolaethau ac anafiadau difrifol ar ffyrdd Gogledd Cymru. Mae dulliau gorfodi cyfyngiadau cyflymder, gan Heddlu Gogledd Cymru a'r bartneriaeth diogelwch y ffyrdd Gan Bwyll, yn un o'r mesurau a ddefnyddir. Mae addysgu a pheirianneg yr un mor bwysig, fel y nodir yn Fframwaith Diogelwch Ffyrdd yng Nghymru.

## Adran Dau:
## Cyflawni rôl y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Fy nghyfrifoldebau craidd yw:

- sicrhau heddlu effeithiol ac effeithlon ar gyfer Gogledd Cymru
- dal y Prif Gwnstabl yn atebol am y modd y mae'n arfer ei swyddogaethau
- dwyn partneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol ynghyd
- cydweithio â'r comisiynwyr heddlu a throsedd eraill a llunio a gweithredu strategaethau ar draws ardaloedd yr heddluoedd

Rwyf wedi parhau i berfformio'r cyntaf o'r swyddogaethau hyn drwy weithredu'r strategaeth a nodais yn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd ac, yn benodol, drwy gyflawni'r pedwar amcan heddlu a throsedd, sef atal trosedd, darparu ymateb effeithiol, lleihau niwed a'r risg o niwed ac adeiladu partneriaethau effeithiol. Er mai dim ond ar ddiwedd fy nhymor y gellir asesu a ydw i wedi llwyddo i wneud hyn yn effeithiol mae effeithiolrwydd yr Heddlu i'w weld yn amlwg yn Nhabl 1 (tudalen 6). Yn Nhachwedd 2014 fe gyhoeddwyd asesiadau PEEL (Effeithlonrwydd, Effeithiolrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu) gan AHEM. Nododd AHEM bod "Heddlu Gogledd Cymru ar y trywydd cywir i fodloni eu toriadau ariannol ac mewn sefyllfa ariannol dda i wynebu toriadau pellach".

Y prif gyfrwng yr wyf yn ei ddefnyddio i ddal y Prif Gwnstabl yn atebol yw'r Bwrdd Gweithredol Strategol yr wyf yn ei gadeirio ac y mae'r Prif Gwnstabl a'i Uwch Swyddogion yn aelodau ohono. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn y cyfarfodydd byddaf yn derbyn adroddiadau ar sawl agwedd ar swyddogaethau'r Prif Gwnstabl gan gynnwys ystadegau trosedd ar gyfer y cyfnod yn union cyn y cyfarfod, y crynodeb misol o berfformiad (sy'n cynnwys gwybodaeth leol am berfformiad), canlyniadau arolygon swyddogion, staff, ac bodlonrwydd y cyhoedd. Nid yw f'ymgysylltiad â'r Prif Gwnstabl a'i uwch aelodau o staff yn gyfyngedig i gyfarfodydd y Bwrdd Strategol Gweithredol a chredaf fod gennym fodel gwaith cadarnhaol sy'n gwasanaethu pobl Gogledd Cymru yn dda.

Rwy'n cyfarfodydd yn rheolaidd ag Arolygwyr Heddluoedd ei Mawrhydi a phennaeth Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu ac yn derbyn adroddiadau ganddynt ar berfformiad Heddlu Gogledd Cymru.

Mae gwaith partneriaeth arall wedi datblygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rwy'n parhau i gynrychioli Cymru ar y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cenedlaethol yn ogystal â bod yn rhan o'r Byrddau Cyfiawnder Troseddol lleol ac ar lefel Cymru gyfan. Mae fy Nirprwy yn aelod o Fwrdd Cynllunio Ardal Gogledd Cymru ac rwy'n parhau i weithio â Bwrdd Arweinyddiaeth a Chymunedau Diogelach Gogledd Cymru. Drwy'r fforymau hyn rwy'n gallu gweld fy amcan o waith partneriaeth effeithiol yn cael ei gyflawni. Fodd bynnag, gellir gwneud mwy i integreiddio darpariaeth gwasanaeth rheng flaen a fydd yn hanfodol os yw asiantaethau statudol yn mynd i oresgyn yr heriau ariannol sylweddol sydd ar y gorwel.

Mae yna ar hyn o bryd waith craffu sylweddol yn cael ei wneud ar gydweithio rhwng heddluoedd a phartneriaid. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn parhau i wynebu toriadau ariannol sylweddol dros y blynyddoedd nesaf ac mae nifer o raglenni gwaith wedi'u datblygu er mwyn ceisio cyflawni rhai o'r arbedion angenrheidiol. Wrth edrych i'r dyfodol, mae angen i ni leihau'r gyllideb ymhellach ac rwy'n parhau i graffu ar y ffordd mae'r Heddlu yn edrych ar gydweithio. Bydd unrhyw gyfleoedd i gydweithio yn cael eu harchwilio'n fanwl, drwy achosion busnes. Mae cyfleoedd yn cael eu hedrych arnynt ar sail Cymru gyfan a gyda'n cydweithwyr yng Ngogledd Orllewin Lloegr.

Rydym wedi edrych yn fanwl ar broffiliau Gwerth am Arian AHM Heddlu Gogledd Cymru o gymharu â Heddluoedd eraill yng Nghymru a Lloegr. Mae yna dal feysydd lle mae'r Heddlu yn gwario mwy na'r cyfartaledd.

## Blwyddyn o ymgysylltu

### Ebrill 2014

Cefais wahoddiad i gymryd rhan yn y cynllun Cyfiawnder mewn Diwrnod er mwyn chwarae rôl y barnwr. Mae Cyfiawnder mewn Diwrnod yn weithdy sydd wedi'i anelu at bobl ifanc 14 i 15 oed ac mae'n dangos y daith drwy'r system cyfiawnder troseddol. Mae'n ffordd rhagorol o alluogi pobl ifanc i ddeall y system cyfiawnder troseddol ac i'w helpu nhw i wneud y penderfyniadau cywir.

### Mai 2014

Ar ôl clywed am y rhaglen cadetiaid sy'n cael ei redeg gan fwyty'r Oystercatcher yn Ynys Môn fe wnes i ymweld â'r bwyty er mwyn gweld eu gwaith rhagorol fy hun. Mae'r rhaglen cadetiaid, sy'n seiliedig ar ailsefydlu, yn gwrs arlwyo dwy flynedd sy'n darparu'r cadetiaid â hyfforddiant ymarferol ac yn yr ystafell ddosbarth. Drwy ddewis eu staff ar sail personoliaeth yn hytrach na chymwysterau ac euogfarnau troseddol, mae'r Oystercatcher yn rhoi cyfle arall iddynt.

### Mehefin 2014

Cefais wahoddiad i Siop Un Stop Wrecsam yn dilyn fy ymweliad y llynedd. Mae'r ganolfan yn lloches ar gyfer merched agored i niwed a byddant yn cael eu cynorthwyo ag ail setlo, llety a gwasanaethau gofal eraill. Roedd yn galonogol gweld sut roedd y ganolfan wedi datblygu dros y flwyddyn ddiwethaf gyda nifer gynyddol o wasanaethau bellach ar gael ar gyfer pobl agored i niwed.

Cynhaliwyd nifer o sioeau amaethyddol ledled Gogledd Cymru yn ystod misoedd yr haf ac er mwyn paratoi ar eu cyfer fe wnes i gwrdd ag arweinwyr Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) ac Undeb Amaethwyr Cymru (FUW).

### Gorffennaf 2014

Mynychais gyfarfod Clwb Busnes Gogledd Cymru er mwyn rhannu canlyniadau o'r arolwg troseddau busnes a gomisiynais drwy'r tîm OWL (on-line watch link). Roedd yn fanteisiol i mi gan ei fod wedi fy ngalluogi i wrando ar safbwyntiau'r gymuned fusnes am blismona yng Ngogledd Cymru.

Fe wnes i hefyd ymweld â chlwb gweithwyr ieuenctid ym Mhrestatyn a gŵyl Balchder Gogledd Cymru ym Mangor.

### Awst 2014

Mi fynychais sioeau amaethyddol megis Sioe Môn, Dinbych a Fflint a Sioe Meirionnydd gyda'r Tîm Troseddau Cefn Gwlad yr Heddlu.

Fe wnes i ymweld â dau brosiect cymunedol a dderbyniodd gyllid gan gynllun cyllideb gyfranogol 2013/2014. Y prosiectau hyn oedd y Grŵp Sgowtiaid a Geidiau yn Saltney Ferry a oedd angen nawdd i brynu eitemau a oedd wedi'u difrodi mewn tân a'r llall oedd Canolfan Gymunedol Noddfa yng Nghaernarfon.

### Medi 2014

Derbyniodd Cynllun TCC Gwarchod Bermo y wobr Cymunedau Diogelach eleni ac yn ystod fy ymweliad yno y sylweddolais bod y cynllun yn haeddu cydnabyddiaeth cyhoeddus. Mae'n darparu lluniau TCC ar gyfer tref Bermo ac mae wedi cynorthwyo Heddlu Gogledd Cymru i adnabod

troseddwyr. Mae'r cynllun yn cael ei redeg gan wirfoddolwyr lleoli sy'n cyfrannu eu hamser eu hunain er mwyn edrych drwy luniau TCC.

Mynychais fore elusennol Mantell Gwynedd er mwyn trafod fy rôl â'r aelodau.

### Hydref 2014

Cynhaliwyd fy seremoni wobrwyo gyntaf er mwyn dathlu a chydnabod y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud gan rai o aelodau ein cymuned. Cynhaliwyd y noson yn Abergele ac roedd yn fraint cael cydnabod rhai o'r bobl hynny sy'n cyfrannu cymaint o'u hamser er mwyn helpu eraill. Roedd y rhai a gafodd eu gwobrwyo yn cynnwys George Powell o Brosiect Warehouse, TCC Y Bermo a Jigsaw i enwi dim ond rhai.

### Tachwedd 2014

Cefais wahoddiad i fynychu cyfarfod cyffredinol Cymdeithas yr Ynadon i siarad am fy rôl fel Comisiynydd.

Fel rhan o fy ngwaith ymgysylltu â chymuned Fwslimaidd Gogledd Cymru fe wnes i gyfarfod ag arweinwyr Canolfan Islamaidd Conwy.

Fe wnes i fynychu cyfarfod yn Abertawe gyda'r Comisiynydd Plant ac Awdurdodau eraill er mwyn trafod cam-drin plant a chamfanteisio'n rhywiol ar blant a diogelu plant.

Fe wnes i hefyd gynnal cynhadledd llwyddiannus ar Gyfiawnder Adferol lle cafodd buddiannau'r broses cyfiawnder adferol eu rhannu ymysg ymarferwyr cyfiawnder troseddol.

### Rhagfyr 2014

Yn ystod fy nghyfnod ymgynghori ar gyfer y Cynllun Heddlu a Throsedd treuliais amser yn siarad ag aelodau o'r cyhoedd, sefydliadau a grwpiau trydydd sector. Ymwelais â VIVA, sydd yn rhan o broject Pobl Ifanc Gorllewin y Rhyl. Maent yn cynnig man cyfarfod, gweithgareddau cymdeithasol a chymorth i bobl ifanc lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol. Rhoddodd hyn gyfle i mi siarad â phobl ifanc a chlywed eu safbwyntiau ar flaenoriaethau plismona.

Fe wnes i hefyd gynnal noson ymgysylltu trydydd sector lle gwnes i wrando ar safbwyntiau asiantaethau trydydd sector.

### Ionawr 2015

Yn dilyn llwyddiant y cynllun Cyllideb Cyfranogol 'Eich Cymuned, Eich Dewis' yn 2013/14 fe wnaethom redeg y cynllun eto yn 2014/15. Roeddwn wrth fy modd cael cyflwyno'r enillwyr, a oedd wedi'u dewis gan eu cymunedau lleol, gyda'u cyllid grant mewn digwyddiad a gynhaliwyd ym Mhencadlys yr Heddlu.

Fe wnes i hefyd fynychu cyfarfod cymunedol yn Llandudno gyda swyddogion lleol er mwyn clywed pryderon lleol ac ateb cwestiynau ynglŷn â fy rôl fel Comisiynydd.

### Chwefror 2015

Cefais wahoddiad gan Gyngor Mwslimaidd Cymru i fynychu digwyddiad yng Nghaerdydd fel rhan o Wythnos Rhyng-ffydd Cenhedloedd Unedig. Roedd siaradwyr gwadd o'r cymunedau Mwslimaidd ac Iddewig er mwyn nodi'r undeb rhwng arweinwyr gwahanol grefyddau. Mynychwyd y digwyddiad gan gannoedd o bobl a oedd yn dangos eu cefnogaeth tuag at y rhyng-ffydd yng Nghymru.

Fe wnes i hefyd fynychu cyfarfod cyhoeddus yn Wrecsam yn dilyn gwahoddiad gan gymdeithas trigolion yn Wrecsam er mwyn trafod materion lleol amrywiol.

### Mawrth 2015

Ym mis Ebrill 2015 bydd y cyllid ar gyfer gwasanaethau dioddefwyr yn dod o dan fy rheolaeth ac er mwyn cyflwyno'r gwasanaethau newydd fe gynhaliais gynhadledd dioddefwyr yng Nghyffordd Llandudno gyda siaradwyr gwadd a oedd yn cynnwys y Farwnes Helen Newlove. Rhannodd y siaradwyr eu profiadau, gydag un dioddefwr trais domestig yn adrodd ei hanes brawychus a sut yr oedd wedi derbyn cymorth er mwyn gallu dod dros ei phrofiad. Bydd y Ganolfan Dioddefwyr newydd yn agor ym mis Gorffennaf 2015 ac yn darparu dioddefwyr â amrywiaeth o wasanaethau.

## Cyllid ac Ariannu

### Cyllideb yr Heddlu

Rwy'n gyfrifol am bennu'r arian fydd ar gael i'r Prif Gwnstabl i'w alluogi i ddarparu plismona yng Ngogledd Cymru. Clustnodwyd cyllideb net o £141 miliwn ar gyfer 2014/15.

Daw 55% o gyllid yr heddlu o'r grant plismona a geir gan y Swyddfa Gartref a darperir 45% gan drethdalwyr lleol. Bydd y cyfrifon drafft terfynol ar gyfer 2014/15 yn cael eu cyflwyno i'w harchwilio erbyn diwedd Mehefin 2015 ac yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan. Bydd y cyfrifon wedi eu harchwilio ar gael erbyn diwedd mis Medi.

Mae 2014/15 wedi bod yn flwyddyn heriol arall yn ariannol ac mae'r heriau yn debygol o barhau yn 2015/16 a thu hwnt. Bydd y flwyddyn i ddod y bumed flwyddyn barhaus o doriadau sylweddol y bydd Heddlu Gogledd Cymru wedi'u wynebu. Mae £19.6m wedi'i dorri dros y pedair blynedd diwethaf a'n rhagolygon presennol yw y bydd £15.5m pellach yn cael ei dorri dros y pedair blynedd nesaf. Er bod yr adnoddau sydd ar gael wedi lleihau, mae'r Prif Gwnstabl wedi parhau i ddarparu Gogledd Cymru â gwasanaeth plismona effeithiol ac effeithlon. Mae cynlluniau i sicrhau arbedion ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod, ar y gweill.

### Darparu Strategaeth yr Ystâd

Mae Strategaeth yr Ystâd 2012-16 (y Strategaeth)yn parhau yn ôl y bwriad mewn perthynas â'r prosiectau cyfalafol allweddol sy'n sail i'r Strategaeth. Mae'r cynlluniau ar gyfer yr adnodd arfaethedig o Bencadlys Dwyreiniol a Dalfa newydd yn Llai wedi datblygu yn ystod 2014/15 gyda'r gwaith adeiladu i gychwyn yn Awst 2015. Fel yr amlinellwyd yn y Strategaeth, bydd Gorsaf Heddlu hefyd yn cael ei darparu yng nghanol tref Wrecsam. Drwy'r gwaith partneriaeth sydd wedi datblygu yn ystod y deuddeg mis diwethaf rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Heddlu Gogledd Cymru, cytunwyd y gellir lleoli'r orsaf newydd yn y dref a hynny yn yr adeilad 'Oriel' dros ffordd i'r brif llyfrgell ger y Guildhall. Bydd y lleoliad hwn, yng nghanol y dref, yn sicrhau bod y swyddogion heddlu sydd wedi'u lleoli yno yn weladwy ac y gall y cyhoedd gael mynediad atynt. Bydd gan yr Orsaf wasanaeth cownter blaen ar gyfer ymholiadau'r cyhoedd. Y bwriad yw y bydd yr adnodd newydd yn Llai a'r Orsaf yng nghanol y dref yn weithredol erbyn Ebrill 2017.

Yn Ebrill 2014, daeth yr Orsaf Heddlu a adleolwyd yn Sir y Fflint yn gwbl weithredol fel rhan o'r adeilad 'Sir y Fflint yn Cysylltu'. Mae hyn yn galluogi Swyddogion Heddlu i weithio ochr yn ochr ag asiantaethau partner. Mae hefyd wedi galluogi'r hen Orsaf Heddlu ac ochr y Llys i gael eu gwagio ar gyfer datblygiad tai arfaethedig sy'n rhan o gynllunio canol tref Y Fflint. Yn yr un modd, ar raddfa lai, mae'r Orsaf Heddlu ym Methesda wedi adleoli i 'Siop Ogwen' mewn partneriaeth waith â 'Partneriaeth Ogwen' sydd wedi dod â'r Orsaf yn ôl i'r Stryd Fawr.

Mae’r cynlluniau i ail ddatblygu safle’r Orsaf heddlu bresennol yn Llandudno wedi bod yn datblygu yn ystod 2014-15 a’r bwriad yw y bydd gwaith adeiladu yn dechrau yn ddiweddarach yn 2015.

## Cronfa’r Comisiynydd 2014/15

Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn fy ngalluogi i ddyfarnu grantiau i bartneriaid, sefydliadau cyhoeddus neu grwpiau gwirfoddol sy’n gallu cefnogi amcanion a nodau a nodir yn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd.

Mae Cronfa’r Comisiynydd yn cynnwys ffrydiau nawdd grant a oedd wedi’u clustnodi yn y gorffennol, yn cynnwys y Gronfa Diogelwch Cymunedol, y Rhaglen Ymyrraeth Cyffuriau (DIP) a’r Cyllid Troseddau Ieuenctid a Chamddefnyddio Sylweddau. Mae dosbarthiad y cyllid wedi’i gynnwys fel Atodiad A i’r adroddiad hwn.

## Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Mae’r gyllideb flynyddol ar gyfer 2014/15 wedi’i gosod ar yr un lefel ag Awdurdod yr Heddlu yn ei dymor olaf sef £731,174.00. Mae hyn gyfwerth â 0.5% o gyfanswm y gyllideb ar gyfer plismona yng Ngogledd Cymru.

## Atodiad A – Dosbarthiad Cronfa'r Comisiynydd 2014/15

Ers mis Ebrill 2013 mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am y gronfa Diogelwch Cymunedol. Mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol wedi penderfynu ar ddosbarthiad yr arian yn eu hardal ar gyfer cyllid sydd wedi'i ddyrannu i bob ardal partneriaeth. Mae'r gronfa wedi'i dyrannu fel â ganlyn:

| Derbynnydd | Diben | Grantiau |
|---|---|---|
| **Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ynys Môn a Gwynedd** | Gwynedd: Cydlynydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol | £15,000.00 |
| | Gwynedd: Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol | £7,000.00 |
| | Gwynedd: TCC Street Hawk | £3,666.83 |
| | Ynys Môn: Cydlynydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol | £17,483.17 |
| | Ynys Môn: Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol | £2,000.00 |
| | **Cyfanswm** | **£45,150** |
| **Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych** | Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ar y Cyd | £22,000.00 |
| | Prosiect Cartrefi Diogelach ar y Cyd | £7,000.00 |
| | Gwarchod y Gymdogaeth ar y Cyd | £4,000.00 |
| | Camerâu TCC y gellir eu hadleoli | £10,000.00 |
| | Dau Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol | £11,126.00 |
| | **Cyfanswm** | **£54,126** |
| **Partneriaeth Diogelwch Sir y Fflint** | Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol | £11,577.28 |
| | Prif Swyddog Gwarchod y Gymdogaeth | £13,643.09 |
| | Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol | £6,345.63 |
| | **Cyfanswm** | **£54,126** |
| **Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Wrecsam** | Gwasanaeth Caledu Targed | £2642.00 |
| | Prosiect Cyfathrebu a Thawelu Meddwl | £4000.00 |
| | Goruchwyliaeth TCC | £6000.00 |
| | OWL a Chynllun Gwarchod | £9500.00 |
| | Cydlynu Atal Trais Domestig a Thrais Rhywiol | £13000.00 |
| | **Cyfanswm** | **£35,142** |
| **Tîm Troseddau Ieuenctid Gwynedd a Môn** | Cyfraniad tuag at Weithiwr Cyfiawnder Ieuenctid yr Ifanc | £16,464.00 |
| **Tîm Troseddau Ieuenctid Conwy a Sir Ddinbych** | Cyfraniad tuag at Weithiwr Cyfiawnder Ieuenctid yr Ifanc | £20,384.00 |
| **Tîm Troseddau Ieuenctid Sir y Fflint** | Cyfraniad tuag at Weithiwr Cyfiawnder Ieuenctid yr Ifanc | £15,029.00 |
| **Tîm Troseddau Ieuenctid Wrecsam** | Cyfraniad tuag at Weithiwr Cyfiawnder Ieuenctid yr Ifanc | £19,695.00 |
| **Rhaglen Ymyrraeth Cyffuriau Gogledd Cymru** | Gwasanaethau Ymyrraeth Cyffuriau a Chyfeirio ar ôl Arestio | £892,622.00 |
| | | |
| | **Cyfanswm Cyllid Grant** | **£1,130,178** |

**Office of the Police and Crime Commissioner North Wales**

Glan y Don, Colwyn Bay LL29 8AW

Tel 01492 805486 Fax 01492 805489

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| **DYDDIAD:** | 15 Mehefin 2015 |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Ken Finch, Cyfarwyddwr Strategol (Democrataidd, Rheoleiddio a Chefnogaeth) - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| **TESTUN:** | Treuliau Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Cyhoeddi treuliau a dalwyd i aelodau Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer 2014/15.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae Cylch Gorchwyl y Panel Heddlu a Throsedd yn ei gwneud yn ofynnol i gyhoeddi treuliau aelodau yn flynyddol a'u gwneud ar gael drwy wefan yr Awdurdod Lletyol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), y Panel Heddlu a Throsedd a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

2.2 Mae Atodiad 1 yn dangos y treuliau a dalwyd i aelodau'r Panel Heddlu a Throsedd ar gyfer 2014/15.

## 3. ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION/DEWISIADAU

3.1 Bod treuliau a dalwyd i aelodau'r Panel Heddlu a Throsedd ar gyfer 2014/15 yn cael eu cyhoeddi yn unol â'i Gylch Gorchwyl.

## 4. GWYBODAETH GEFNDIROL

4.1 Cymeradwyodd y Panel Heddlu a Throsedd Gynllun Lwfans ar 4 Mehefin 2013, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer talu lwfansau i aelodau'r panel fel a ganlyn:

- Gwneir taliadau drwy ffi ddyddiol o £198 (£99 am hanner diwrnod), sydd ag uchafswm sy'n gyfwerth â 5 diwrnod llawn y flwyddyn.
- Mae gan aelodau'r Panel Heddlu a Throsedd yr hawl i hawlio lwfansau teithio ar gyfer dyletswyddau a gymeradwywyd.

4.2 Mae'n rhaid i'r Panel Heddlu a Throsedd gyhoeddi manylion y treuliau a dalwyd i aelodau’r panel yn flynyddol a bydd y wybodaeth hon hefyd yn cael ei darparu i'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru at ddibenion eglurder ac i sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu.

**5. YMGYNGHORI**

5.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Panel Heddlu a Throsedd sy'n cefnogi cyhoeddi treuliau ar gyfer 2014/15.

**6. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU**

6.1 Mae’r Swyddfa Gartref yn darparu cyllid i’r Awdurdod Lletyol ar gyfer Panel Heddlu a Throsedd, a gallant dderbyn hyd at £11,040 yn flynyddol ar gyfer treuliau a dalwyd i aelodau.

**7. RISG**

7.1 Er bod y Swyddfa Gartref yn darparu cyllid ar gyfer treuliau aelodau, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn monitro taliadau a wneir i sicrhau nad yw aelodau'r panel yn mynd i gostau ychwanegol at grant y Swyddfa Gartref.

**8. RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD**

8.1 I geisio cymeradwyaeth i gyhoeddi treuliau a dalwyd i aelodau’r Panel Heddlu a Throsedd ar gyfer 2014/15 yn unol â’i Gylch Gorchwyl.

Atodiad 1

**Lwfansau Aelodau 2014/15**

| Aelodau | Lwfans (gan gynnwys YG) | Treuliau | Hyd at | O |
|---|---|---|---|---|
| Pat Astbury | 594.00 | 277.48 | 01/04/14 | 31/03/15 |
| Cyng. Amanda Bragg | 693.00 | 319.22 | 01/04/14 | 31/03/15 |
| Cyng. Glenys Diskin | 198.00 | 0.00 | 01/04/14 | 31/03/15 |
| Cyng. Bob Dutton | 594.00 | 294.57 | 22/08/14 | 31/03/15 |
| Cyng. Philip C. Evans | 450.64 | 0.00 | 01/04/14 | 31/03/15 |
| Cyng. Julie Fallon | 753.20 | 124.77 | 01/04/14 | 31/03/15 |
| Cyng. David Griffiths | 99.00 | 0.00 | 22/01/15 | 31/03/15 |
| Cyng. William Hughes | 198.00 | 73.73 | 01/04/14 | 31/03/15 |
| Cyng. Dilwyn Morgan | 297.00 | 121.10 | 04/11/14 | 31/03/15 |
| Cyng. Colin Powell | 792.00 | 286.85 | 01/04/14 | 03/11/14 |
| Tim Rhodes | 198.00 | 0.00 | 01/04/14 | 31/03/15 |
| Cyng. Bill Tasker | 0.00 | 0.00 | 01/04/14 | 31/03/15 |
| Cyng. Gethin Williams | 297.00 | 134.86 | 01/04/14 | 31/03/15 |
| **Cyfanswm** | **5163.84** | **1632.58** | | |

EITEM RHAGLEN 9b

POLICE AND CRIME PANEL

PANEL HEDDLU A THROSEDD

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

## Y RHAGLEN WAITH I’R DYFODOL

| | |
|---|---|
| Swyddog Cyswllt: | Dawn Hughes |
| | Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Bodlondeb<br>Conwy<br>LL28 5NF |
| E-bost: | dawn.hughes@conwy.gov.uk |
| Ffôn: | 01492 576061 |

| Dyddiad | Testun | Swyddog yn Gyfrifol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|
| **15 June 2015** | **Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Prif Gwnstabl** | Mark Polin, Prif Gwnstabl, Heddlu Gogledd Cymru |
| **15 Mehefin 2015** | **Adroddiad Blynyddol gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd (y Comisiynydd)**<br>Cael adroddiad blynyddol y Comisiynydd | Winston Roddick, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **15 Mehefin 2015** | **Sut mae'r Comisiynydd yn gwneud penderfyniadau comisiynu a beth yw ei fwriadau ar gyfer y dyfodol/Gweithio mewn Partneriaeth?**<br>Ystyried adroddiad craffu ar sut y mae'r comisiynydd yn gwneud penderfyniadau comisiynu a beth yw ei fwriadau ar gyfer y dyfodol | Winston Roddick, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **15 Mehefin 2015** | **Lwfansau a Threuliau Aelodau**<br>Cael adroddiad ar y lwfansau a delir i aelodau o Banel yr Heddlu a Throsedd | Ken Finch, Cyfarwyddwr Strategol - Democratiaeth a'r Amgylchedd<br>ken.finch@conwy.gov.uk |
| **21 Medi 2015** | **Sut mae'r Comisiynydd yn gwella hyder yn yr Heddlu ar draws Gogledd Cymru?**<br>Ystyried adroddiad craffu ar sut mae'r Comisiynydd yn gwella hyder yn yr Heddlu ar draws Gogledd Cymru? | Ken Finch, Cyfarwyddwr Strategol - Democratiaeth a'r Amgylchedd<br>ken.finch@conwy.gov.uk |
| **21 Medi 2015** | **Cwynion a Gafwyd**<br>Derbyn crynodeb o nifer y cwynion a gafwyd a'r camau gweithredu a fu yn eu sgil | Ken Finch, Cyfarwyddwr Strategol - Democratiaeth a'r Amgylchedd<br>ken.finch@conwy.gov.uk |

| Dyddiad | Testun | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|
| **Dyddiad** | **Testun** | **Swyddog yn Gyfrifol<br>(gan gynnwys cyfeiriad e-bost)** |
| **21 Medi 2015<br>14 Rhagfyr 2015<br>14 Mawrth 2016** | **Diweddariad ar Gyllideb 2015/16** | Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid (Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd) |
| **25 Ionawr 2016** | **Praesept Arfaethedig 2016/17**<br>Ystyried y praesept arfaethedig ar gyfer 2016/17 | Winston Roddick, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **14 Mawrth 2016** | **Cynllun yr Heddlu a Throsedd**<br>Cynllun yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | Winston Roddick, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **Eitemau yn y dyfodol** | | |
| **Rhwng 12 Mehefin 2015 a 27 Mai 2016** | **Sut mae'r Comisiynydd yn creu partneriaethau effeithiol?**<br>Ystyried adroddiad craffu ar sut mae'r Comisiynydd yn meithrin partneriaethau effeithiol | Ken Finch, Cyfarwyddwr Strategol - Democratiaeth a'r Amgylchedd<br>ken.finch@conwy.gov.uk |
| **I'w gadarnhau** | **Diweddariad ar newidiadau i'r Fformiwla Gyllido**<br>Cael diweddariad ar yr adolygiad o fformiwla gyllido yr heddlu. | Winston Roddick, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |